



UK Research
and Innovation

Cynllun Corfforaethol UKRI

2022—2025



Cynnwys

Cyflwyniad 4

Cyflawni ein hamcanion:

Amcan 1: pobl a gyrfaodd o'r radd flaenaf 6

Amcan 2: lleoedd o'r radd flaenaf 11

Amcan 3: syniadau o'r radd flaenaf 15

Amcan 4: arloesi o'r radd flaenaf 18

Amcan 5: effeithiau o'r radd flaenaf 21

Amcan 6: sefydliad o'r radd flaenaf 25

Ein cyllideb 29

Naw cyngor yw UKRI, yn gweithio gyda'i gilydd i feithrin system ymchwil ac arloesi ragorol ar gyfer y DU. Rydym yn trosoli arbenigedd ar draws yr holl ddisgyblaethau a sectorau a thrwy ein partneriaethau niferus, gan gyfoethogi bywydau'n lleol, yn genedlaethol, ac yn fyd-eang.



Cyflwyniad

Mae ein cynllun corfforaethol, ynghyd â chynlluniau cyflenwi strategol ein naw cyngor, yn adeiladu ar ein [strategaeth pum-mllynedd](#) ac yn disgrifio sut y byddwn yn gwireddu ein gweledigaeth, ein cenhadaeth a'n chwe amcan strategol dros y 3 blynedd nesaf. Yn sail i'n rhaglen waith mae'r egwyddorion ar gyfer newid a nodir yn ein strategaeth: amrywiaeth, cysylltedd, gwytnwch ac ymgysylltu.

Mae'r cynllun corfforaethol hwn yn cydnabod gallu integredig ein cyngorau ac yn rhoi trosolwg o'r gweithgareddau cyfunol ar draws UKRI, gan gynnwys ein

cynlluniau i symleiddio ein gwariant gweithredol i fod yn sefydliad mwy effeithlon ac effeithiol. Dylid ei ystyried fel atodiad i'n strategaeth sy'n nodi ein huchelgeisiau ar gyfer y tair blynedd nesaf gan ganolbwyntio ar weithgareddau ar gyfer 2022-23. Byddwn yn rhoi adroddiad o'r hyn a gyflawnasom mewn perthynas â'r gweithgareddau hyn yn ein Hadroddiad Blyneddol a'n Cyfrifon.

Mae gweithgareddau sy'n benodol i gynghorau yn cael eu disgrifio'n fanylach yng nghynllun cyflenwi strategol pob cyngor.

Ein pwrpas – trawsnewid yfory gyda'n gilydd

UKRI yw'r peiriant ar gyfer y DU fel pwerdy ymchwil ac arloesi. Rydym yn buddsoddi dros £8 biliwn bob blwyddyn ar ran y Llywodraeth, gan ymwela ar arbenigedd ar draws pob disgyblaeth a sector. Rydym yn ysbrydoli ac yn galluogi pobl dalentog i wthio ffiniau darganfod, yn cefnogi busnesau arloesol i dyfu, ac yn targedu atebion i flaenoriaethau cenedlaethol a byd-eang. Mae ein strategaeth yn nodi sut y byddwn yn gweithio gyda'n partneriaid a'n rhanddeiliaid niferus i feithrin system ymchwil ac arloesi ragorol yn y DU sy'n sbarduno manteision economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol i bob dinesydd, gan drawsnewid yfory gyda'n gilydd.

Ein hegwyddorion ar gyfer newid – byddwn yn ymgorffori'r egwyddorion hyn ar draws ein holl waith, er mwyn sbarduno newid a chreu'r amodau ar gyfer system ymchwil ac arloesi ragorol

Mae **amrywiaeth** o syniadau, pobl, gweithgareddau, sgiliau, sefydliadau a seilwaith yn datblygu gwybodaeth ac yn cynyddu ansawdd a chreadigrwydd.

Mae **gwytnwch** yn sicrhau'r ystwythder, y gallu a'r hyblygrwydd sydd eu hangen i wrthsefyll ergydion, cyflawni nodau hirdymor a manteisio ar gyfleoedd newydd.

Mae **cysylltedd** ar draws disgyblaethau, sectorau a ffiniau yn sbarduno syniadau a dulliau newydd o sicrhau effaith.

Mae **ymgysylltu** i'n llywio ymchwil ac arloesi i adlewyrchu anghenion, safbwyntiau a chymhellion rhanddeiliaid amrywiol a'r cyhoedd.

Mae ein hamcanion strategol yn darparu'r fframwaith ar gyfer sut y byddwn yn cyflawni ein gweledigaeth ac yn gwireddu ein hegwyddorion, drwy gyfrwng:

Pobl a gyrfaedd	Lleoedd	Syniadau	Arloesi	Effeithiau
Gwneud y DU y gyrchfan fwyaf deniadol i bobl a thimau talentog o'r DU a ledled y byd.	Sicrhau safle'r DU fel cenedl ymchwil ac arloesi o'r radd flaenaf gyda sefydliadau, seilwaith, sectorau a chlystyrau rhagorol ar hyd a lled y wlad.	Hyrwyddo ffiniau gwybodaeth ac arloesi dynol drwy alluogi'r DU i fanteisio ar gyfleoedd o dueddiadau ymchwil sy'n dod i'r amlwg, dulliau amlddisgyblaethol a chysyniadau a marchnadoedd newydd.	Cyflawni gweledigaeth y llywodraeth ar gyfer y DU fel cenedl arloesi, drwy weithredu ar y cyd gan Innovate UK ac yn ehangach UKRI.	Canolbwyntio gwyddoniaeth ac arloesi penigamp y DU er mwyn targedu heriau byd-eang a chenedlaethol, creu a manteisio ar dechnolegau yfory, ac adeiladu'r sectorau busnes twf-uchel y dyfodol.

Gyda chefnogaeth **sefydliad o'r radd flaenaf** – gan wneud UKRI y sefydliad mwyaf effeithlon, effeithiol ac ystwyth y gall fod.

Drwy'r cyfnod adolygu gwariant presennol (2022-25) rydym wedi ymrwymo i'r canlynol:

Rhoi hwb i dechnolegau yfory. Rydym yn cynyddu ein buddsoddiad mewn technolegau'r dyfodol er mwyn gwireddu mantais strategol y DU ar draws y teuluoedd technoleg a nodwyd yn Strategaeth Arloesi'r Llywodraeth. Gan adeiladu ar lwyddiant ein rhaglenni Deallusrwydd Artiffisial (DA), technolegau cwantwm a bioleg peirianeg, byddwn yn cydweithio â busnesau i gynyddu buddsoddiad, greu swyddi gwerth uchel a thyfu'r sectorau o'r radd flaenaf hyn. **(gweler amcan 5)**

Datblygu, denu a chadw pobl dalentog. Byddwn yn meithrin a thyfu sylfaen dalent y DU ac yn sicrhau bod y DU yn fagwrfu i dalent fyd-eang er mwyn cynyddu dwyster Y&D y DU i 2.4% o'r CMC. Bydd ein rhaglen dalent newydd gwerth £2 biliwn yn gosod y safon ar gyfer buddsoddiad talent yn fyd-eang gyda chynnydd o 26% yn y buddsoddiad erbyn 2024-25. Byddwn yn cefnogi'r ystod lawn o dalent sydd ei angen drwy bortffolio o raglenni blaenllaw gan gynnwys efrydiaethau, rowndiau pellach o'n Cymrodoriaethau Arweinwyr y Dyfodol, a fisas talent byd-eang, gan gysylltu sectorau a disgyblaethau trwy lwybrau gyrfa hyblyg ac amrywiol. **(gweler amcan 1)**

Seilwaith rhagorol ledled y DU.

Mae seilwaith ymchwil ac arloesi blaengar yn hanfodol o ran gwneud y DU yn uwchbwer gwyddoniaeth. Rydym yn cynyddu ein buddsoddiad blynyddol mewn seilwaith o leiaf £200 miliwn i gyrraedd dros £1.1 biliwn yn 2024-25. Mae hyn yn cynnwys £100m ar gyfer rownd newydd o Gronfa Fuddsoddi Partneriaeth Ymchwil y DU (UKRPIF), y cyntaf ers 2017. Bydd ein buddsoddiad yn cynyddu galluedd ymchwil ac arloesedd y DU, yn denu busnes sy'n symudol yn fyd-eang, yn cynyddu buddsoddiad yn y sector preifat ac yn sbarduno twf ym mhob rhan o'r DU. **(gweler amcan 2)**

Cataleiddio twf trwy atgyfnerthu arloesedd. Byddwn yn cynyddu cynhyrchiant a thwf economaidd y DU drwy ein buddsoddiad cynyddol mewn arloesedd. Rydym yn gyrru Strategaeth Arloesedd y Llywodraeth yn ei blaen, yn bennaf drwy 'Gynllun Gweithredu ar gyfer Arloesedd Busnes DU' Innovate UK, gan gynyddu ei chyllideb i dros £1 biliwn y flwyddyn erbyn 2024-25. Bydd ein buddsoddiad yn cyflymu masnacheiddio, cefnogi cyfnewid gwybodaeth a chydweithio, cefnogi busnesau arloesol i gynyddu eu maint a gwneud y DU y lle gorau yn y byd i fuddsoddi. **(gweler amcan 4)**

Clystyrau ymchwil ac arloesi ffyniannus ledled y DU. Rydym yn cefnogi a chysylltu'r byd academiaidd, ymchwilwyr, busnesau, a buddsoddwyr mewn clystyrau rhagoriaeth allweddol i sbarduno twf a swyddi ym mhob cenedl a rhanbarth o'r DU. Byddwn yn cyflwyno tri Chyflymydd Arloesi peilot ym Manceinion Fwyaf, Gorllewin Canolbarth Lloegr, a Dinas-Ranbarth Glasgow. Bydd ein buddsoddiadau'n cyflenwi manteision economaidd, cymdeithasol, a diwylliannol o ymchwil ac arloesi i bob dinesydd ac yn cyfrannu at dargedau'r Llywodraeth ar gyfer buddsoddiad ymchwil a datblygu (Y&D) y tu allan i'r De Ddwyrain Fwyaf. **(gweler amcan 2)**

Adeiladu dyfodol gwyrddach i bawb. Byddwn yn cyfrannu tuag at gyflenwi Sero Net, gan sicrhau diogelwch ynni'r DU, gefnogi amgylchedd iach, cynhyrchiol a bioamrywiol, a chodi ffyniant ledled y DU. Drwy raglen strategol newydd fawr, 'Adeiladu Dyfodol Gwyrdd', byddwn yn harneisio ehangder llawn ymchwil ac arloesi drwy ddod â buddsoddiadau ar draws UKRI ynghyd, gan gynnwys harneisio pŵer dylunio i gataleiddio'r newid i sero-net ac economi werdd. Bydd yr ateb system gyfan hwn yn cynyddu cynhyrchiant ac yn sicrhau dyfodol gwyrdd i bawb. **(gweler amcan 5)**

Mynd i'r afael â heriau byd-eang a chenedlaethol. Byddwn yn gweithio mewn partneriaeth ag adrannau'r llywodraeth, ymchwilwyr, arloeswyr, busnes, a buddsoddwyr byd-eang i dargedu heriau byd-eang a chenedlaethol. Gan adeiladu ar fuddsoddiadau presennol rydym yn buddsoddi £185 miliwn yn ychwanegol ar draws UKRI er mwyn mynd i'r afael â heriau mawr, cymhleth. Bydd y dull cydgyssylltiedig a chydweithredol hwn yn mynd i'r afael â blaenoriaethau cenedlaethol a byd-eang, gan gynnwys blaenoriaethau NSTC y Llywodraeth. **(gweler amcan 5)**

Cefnogi mewnwelediadau newydd drwy wyddoniaeth ryngddisgyblaethol. Rydym wedi ymrwymo i gefnogi'r syniadau gorau i ehangu ffiniau gwybodaeth ac arloesedd. Mae ecosystem ymchwil ac arloesedd amrywiol a deinamig yn allweddol i iechyd a lles, ffyniant, a dylanwad byd-eang y DU yn y dyfodol. Rydym yn creu cynllun peilot modd ymatebol rhyngddisgyblaethol newydd gwerth £65 miliwn sy'n hollol agored fydd yn cefnogi meysydd newydd a rhai sy'n dod i'r amlwg sy'n ymestyn y tu hwnt i ffiniau disgyblaethol, gan adeiladu partneriaethau cydweithredol newydd i wneud darganfyddiadau cyffrous. **(gweler amcan 3)**

Dod yn sefydliad mwy ystwyth, ymatebol.

Bydd ein model gweithredu a'n systemau data newydd yn galluogi UKRI i ddod yn sefydliad mwy agored a heini, gan gataleiddio, cysylltu a chynnull ar draws yr ecosystem ymchwil ac arloesi i sicrhau canlyniadau trawsnewidiol i'n cymdeithas, ein heconomi a'n hamgylchedd. Trwy leihau biwrocratiaeth ddiangen a chynyddu effeithlonrwydd byddwn yn uchafu ein cefnogaeth i ymchwil ac arloesi gan gynyddu gwerth am arian i drethdalwyr y DU. **(gweler amcan 6)**

Amcan 1: Pobl a gyrfaoedd o'r radd flaenaf

Gwneud y DU y gyrchfan orau i bobl a thimau talentog.

Rydym wedi ymrwymo i wneud y DU yn gyrchfan o ddewis i unigolion, timau, a busnesau talentog, gan gadw ein safle fel arweinydd byd-eang mewn ymchwil ac arloesi. Byddwn yn parhau i fuddsoddi mewn pobl a thimau ar draws y sbectrwm sgiliau Y&A llawn, gan gysoni buddsoddiadau ac arferion cyngor-benodol a UKRI-gyfan i sicrhau bod ein hamgylchedd ymchwil ac arloesi a'h diwylliant yn gweithredu fel magnetau ar gyfer talent fyd-eang, gan alluogi pobl a thimau creadigol i ffynnu. Bydd hyn yn sicrhau bod gennym y bobl a'r sgiliau angenrheidiol yn sail i'r system, gan gysylltu ymchwil ac arloesedd i sicrhau effeithiau a sicrhau mantais gystadleuol mewn technolegau strategol. Mae ein portffolio Pobl, Diwylliant a Thalent yn cydnabod ehangder a chyd-ddibyniaeth y gwaith hwn ac yn cynnig dull cyfannol a fydd, er nad yn hawdd, yn rhoi cyfle i ni gysoni gwaith yn fwyaf effeithiol ac osgoi silos.

Dros y tair blynedd nesaf byddwn yn trawsnewid y ffordd rydym yn buddsoddi mewn talent, gan greu cyllideb dalent gyfun o £2 biliwn a fydd yn cefnogi portffolio o efrydiaethau a chymrodoriaethau blaenllaw ar draws camau gyrfa, gan gynyddu buddsoddiad yn y rhaglenni hyn 26% erbyn 2024-25. Byddwn yn gwella amrywiaeth llwybrau gyrfa gan sicrhau cefnogaeth i yrwyr aflonyddgar a chreadigol chwyldroadau gwyddonol a thechnegol, a'r gweithlu medrus iawn sydd ei angen ar gyfer economi sy'n cael ei arwain gan arloesedd gan fynd i'r afael ag anghenion busnesau a diwydiannau. Byddwn yn hyrwyddo diwylliant ymchwil ac arloesi rhagorol lle gall unigolion ffynnu, gan gynyddu'r gydnabyddiaeth i dechnegwyr, ymchwilwyr ôl-ddoethurol a rolau perthynol i ymchwil. Byddwn yn gwella porosedd y system, gan gymell symudiad pobl, syniadau, sgiliau, a gwybodaeth, gan adeiladu'r rhwydweithiau sydd eu hangen ar gyfer creu, mabwysiadu a thryledu syniadau a thechnolegau newydd.

Byddwn yn:	Yn 2022-23 byddwn yn:	Er mwyn goruchwyllo maint ein cyrhaeddiad tuag at ein nodau cyffredinol, byddwn yn:
Gwneud y DU y gyrchfan fwyaf deniadol i bobl a thimau talentog o'r DU a ledled y byd.	Creu rhaglen dalent UKRI-eang a fydd yn gosod y safon ar gyfer buddsoddi talent yn fyd-eang, cysoni ein gweithgareddau i leihau biwrocratiaeth a'i gwneud hi'n haws i'r gymuned weithio ar draws ffiniau, gan gynnwys: ■ ymestyn ein rhaglen Cymrodoriaethau Arweinwyr y Dyfodol gyda rownd arall o gyllid a datblygu ymagwedd ar y cyd newydd at gymrodoriaethau sy'n creu cyfleoedd ac yn ysgogi symudiad rhwng disgyblaethau, sectorau, a rolau, ac yn ehangu cyfranogiad i ddenu a chadw'r arweinwyr talentog sydd eu hangen ar gyfer gwaith ymchwil ac arloesi o'r radd flaenaf. ■ parhau i gefnogi'r llywodraeth i ddarparu Bargen Newydd ar gyfer Ymchwil Ôl-raddedig, cyhoeddi ymateb i'n galwad am fewnbwn a defnyddio'r gwaith hwn i herio a thrawsnewid ein hymagwedd at hyfforddi doethurol drwy gysoniad ac arloesedd yn y modd yr ydym yn buddsoddi i sicrhau ei fod yn gynaliadwy, yn agored ac yn ddenediol i ystod eang o ymgeiswyr, yn cynyddu symudiad pobl a syniadau ar draws y system Y&A ac yn diwallu anghenion cyflogwyr y dyfodol. Hyrwyddo a thyfu'r defnydd o'r Fisa Talent Byd-eang a llwybrau gweithwyr dros dro, gan gynnwys: ■ blaenu diwygiadau i wella llwybrau mudo sgiliau-uwch ar gyfer arloeswyr ac entrepreneuriaid. ■ ehangu cynllun symudedd tymor byr UKRI a chyfuno cynigion symudedd presennol i gefnogi'n mynediad haws a sefydlu llwybr agos-at-fusnes ar gyfer deiliaid Fisa Talent Byd-eang. ■ cynyddu ymgysylltiad cenedlaethol a rhyngwladol i wella ein dealltwriaeth o'r rhwystrau i symudedd byd-eang, gwella mynediad teg a meithrin ymwybyddiaeth gyda chynulleidfaoedd ehangach gan gynnwys busnesau a myfyrwyr ôl-raddedig.	Mesur nifer ac amrywiaeth y bobl, lleoedd a'r sefydliadau a gefnogir i sicrhau ein bod yn cymell llwybrau gyrfa amrywiol. Mesur y defnydd o'r Fisa Talent Byd-eang ac ehangder a chynhwysedd ein cynlluniau efrydiaeth a chymrodoriaeth i nodi sut rydym yn denu a chefnogi pobl dalentog. Monitro a gwerthuso ein hymyriadau diwyllianol gan gynnwys yr R4RI a'r polisi Mynediad Agored, gan ddysgu ohonynt er mwyn sicrhau ein bod yn cefnogi diwylliant Ymchwil ac Arloesi agored a chydweithredol.
Datblygu ehangder y bobl a'r timau medrus sy'n hanfodol ar gyfer gweithlu Ymchwil a Datblygu'r dyfodol.	Cyflawni ein strategaeth Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant a'n cynlluniau gweithredu, fel rhan o gyflwyno'r Strategaeth Pobl a Diwylliant Ymchwil a Datblygu, er mwyn cefnogi a hyrwyddo'r system ymchwil ac arloesi amrywiol, cynhwysol a chysylltiedig sy'n hanfodol ar gyfer llwyddiant, gan gynnwys: ■ adeiladu'r sylfaen dystiolaeth a rhannu arferion da, gan gynnwys sefydlu cawcws Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant newydd, rhwydwaith rhyngddisgyblaethol o academyddion i ddarparu tystiolaeth a mewnwleidiadau ymchwil sy'n llywio polisi ac ymarfer ar draws y sector Y&A, mewn partneriaeth â'r Academi Brydeinig. parhau...	

Byddwn yn:	Yn 2022-23 byddwn yn:	Er mwyn goruchwyllo maint ein cyrhaeddiad tuag at ein nodau cyffredinol, byddwn yn:
	Cyflawni ein cynlluniau gweithredu ar y Concordat i Gefnogi Datblygiad Gyrfa Ymchwilwyr a'r Ymrwymiad Technegwyr, gan gynnwys: ■ adolygu ein canllawiau a'n hymgysylltiad aseswr i gymell datblygiad gweithlu ymchwil o fewn ceisiadau am gyllid. ■ cymell llwybrau gyrfa amrywiol, cael gwared ar rwystrau, a gwella ein cefnogaeth i ymchwilwyr gyrfa gynnar a'r ystod o rolau sydd eu hangen yn Y&A drwy weithgareddau wedi'u targedu'n benodol gan y cyngor sy'n meithrin partneriaethau a chydweithrediadau ar draws y cymunedau academiaidd, busnes, buddsoddwr a pholisi, ochr yn ochr â'n gweithgareddau ar y cyd i ddatblygu a dylanwadu ar bolisi a diwylliant ehangach.	
Symud diwylliant ymchwil i gefnogi pobl a thimau talentog i ddilyn eu syniadau.	Datblygu a dylanwadu ar bolisi a diwylliant ymchwil ac arloesi cenedlaethol a rhyngwladol, gan gynnwys drwy: ■ gefnogi gwaith Pwyllgor y DU ar Onestrwydd Ymchwil (UK CORI), weithio mewn partneriaeth â'r Swyddfa Uniondeb Ymchwil y DU a'r Concordat ar Onestrwydd Ymchwil i adeiladu ymchwil dibynadwy a rhannu arfer gorau. ■ gryfhau ein rôl mewn fforymau amlochrog, gan gynnwys trafodaethau'r Global Research Council – Science Europe, Fforwm Gwyddoniaeth Fyd-eang yr OECD a Thrac Gwyddoniaeth G7. ■ gyflwyno ein polisi Mynediad Agored i wella mynediad a'r ailddefnydd o ymchwil a ariennir gan y cyhoedd. Byddwn yn datblygu ein polisi data agored i gymell rhannu data ymchwil, ac, os yn briodol, protocolau, meddalwedd, a chod i gefnogi ail-ddefnydd, uniondeb ymchwil a chydweithio. ■ gynnull partneriaid a rhanddeiliaid allweddol ar draws y sector ymchwil ac arloesi i gyd-greu ffordd ymlaen ar gyfer Cam 2 yr Adolygiad Concordat a Chytundeb. Nod hyn yw cynyddu dylanwad, capasiti ac effeithlonrwydd concordatau a chytundebau, ac mae'n ategu gwaith yr Adolygiad Annibynnol ar Fiwrocratiaeth. Treialu modelau a mabwysiadu arfer da ar gyfer gwella diwylliant ymchwil ac arloesi, gan weithio gyda phartneriaid i ddefnyddio dull seiliedig ar ddata a thystiolaeth i ysgogi newid effeithlon a chynaliadwy, gan gynnwys drwy: ■ hyrwyddo gwaith i atal bwllo ac aflonyddu, gan ganolbwyntio ar newid lefel system i greu diwylliannau ymchwil ac arloesi iach gan gynnwys cynnull a chadeirio'r Fforwm traws-sector ar gyfer Taclo Bwllo ac Aflonyddu mewn Y&A. ■ gyflwyno 'Adolygiad o Adolygiad Gan Gyfoedion' diwedd-i-ddiwedd i wella ein harferion a chefnogi'r gwaith o sicrhau'r canlyniadau gorau o'n cyllid. Rydym yn anelu i gyhoeddi'r canlyniadau yn 2023-24. parhau...	

Byddwn yn:	Yn 2022-23 byddwn yn:	Er mwyn goruchwyllo maint ein cyrhaeddiad tuag at ein nodau cyffredinol, byddwn yn:
	■ cynyddu nifer y cynlluniau peilot, a chefnogi mabwysiadu cymunedol, o'r Résumé for Research and Innovation (R4RI). Byddwn yn cynnull dwy gymuned ymarfer i ddarparu dull effeithlon, cydlynus, a chynhwysfawr o symud yr hyn sy'n weladwy, yn cael ei werthfawrogi, ei gydnabod a'i wobrwyo ar draws y sector Y&A, a byddwn yn ychwanegu adnoddau i'r Llyfrgell Résumé (Grŵp Cyd-gyllidwyr). ■ ymateb i Adolygiad Integredig y Llywodraeth, a gydnabyddodd yr angen i ddiogelu ymchwilwyr ac arloeswyr, ac allbynnau ymchwil ac arloesi, drwy welyo Ymchwil ac Arloesi Dibynadwy. Byddwn yn gweithredu strwythurau a phrosesau llywodraethu, yn adeiladu ein gwybodaeth a'n dealltwriaeth, ac yn gweithredu protocolau asesu risg ar draws ein cynghorau. Cyhoeddi a chyflwyno strategaeth ymgysylltu â'r cyhoedd newydd ar gyfer UKRI sy'n amlinellu ein nodau a'n blaenoriaethau ar gyfer chwalu'r rhwystrau rhwng ymchwil, arloesi, a chymdeithas. Gan gynnwys: ■ lansio rhaglenni ymgysylltu newydd a arweinir gan y gymuned sy'n adeiladu capasiti, gallu, a chysylltedd ar gyfer cydweithio ystyrlon rhwng ymchwilwyr, arloeswyr, a chymunedau, trwy gyllid ar gyfer prosiectau ymchwil a arweinir gan y gymuned a chefnogaeth ar gyfer rhwydweithiau lleol. ■ parhau i gefnogi pobl ifanc i archwilio perthnasedd ymchwil ac arloesi yn eu bywydau fel gwneuthurwyr penderfyniadau, ymchwilwyr ac arloeswyr y dyfodol trwy raglenni a gweithgareddau fel y rhaglen Llysgennad STEM, yr ŵyl Being Human, Explore Your Universe, a Gwobrau Crest. Byddwn hefyd yn adolygu ein dull o ymgysylltu ag ieuenctid gydag ymchwil ac arloesi, gan gynnwys adolygiad o'n rhaglen Llysgennad STEM. ■ archwilio ffyrdd arloesol o gynnal deialog ar bynciau ymchwil ac arloesedd, er enghraifft, trwy <i>Ailystyried Deialog Gyhoeddus: Cronfa arbrofi UKRI</i>. Gan weithio mewn partneriaeth â'r Gymdeithas Frenhinol ar gyfer y Celfyddydau, Gweithgynhyrchu a Masnach, bydd y gronfa £0.48 miliwn hon yn cefnogi prosiectau a fydd yn creu tystiolaeth ar gyfer dulliau newydd i wrando a gweithredu ar ystod eang o leisiau.	

Uchafbwynt: Datblygu sgiliau DA o'r radd flaenaf

Bydd EPSRC yn arwain buddsoddiad o £20 miliwn i ddyblu nifer y Cymrodoriaethau Ymchwilydd o'r Radd Flaenllaw DA Turing yn y DU. Bydd hyn ochr yn ochr â buddsoddiad o £117 miliwn ledled UKRI i barhau i ddarparu hyfforddiant DA lefel doethuriaeth yn ôl y galw. Bydd cymrodr yn mynd i'r afael â heriau methodolegol mewn DA, gan ddefnyddio achosion defnydd byd go iawn ar draws pob disgyblaeth, a bydd y Canolfannau Hyfforddiant Doethurol (CHD) yn hyfforddi'r genhedlaeth nesaf o ymchwilydd ac ymarferwyr DA.

Bydd cymrodr a CHDau yn ategu buddsoddiadau ehangach DA UKRI ac yn creu pont rhwng y byd academiaidd a busnes gan ddarparu sgiliau ac atebion moesegol i gefnogi uchelgais y DU i fod yn bwerdy DA.

Uchafbwynt: Cryfhau ein sylfaen dystiolaeth i ddenu talent fyd-eang

Byddwn yn cyhoeddi iteriad cyntaf yr Adroddiad Tystiolaeth Symudedd Byd-eang gan ddarparu un pwynt cyfeirio cynhwysfawr ar gyfer llunio polisi cydgysylltiedig. Wrth gyflawni nod y strategaeth Pobl a Diwylliant i "gryfhau'r sail dystiolaeth sy'n seiliedig ar y rhwystrau sy'n gysylltiedig â symud i'r DU a'u heffaith ar ymchwilydd, eu timau, a'u teuluoedd, a'u penderfyniadau gyrfaol", ymgysylltasom â thua 40 o sefydliadau ar draws y Llywodraeth a'r Sector Y&A i grynhoi data sy'n bodoli eisoes a chasglu tystiolaeth newydd. Byddwn yn adnewyddu'r adroddiad hwn yn flynyddol er mwyn helpu i fynd i'r afael â bylchau mewn tystiolaeth ac adeiladu dealltwriaeth fwy cyfannol o symudedd ar draws y Sector Y&A.

Astudiaeth achos

Cefnogi diwylliant ymchwil ac arloesi rhagorol trwy Fynediad Agored

Wrth i ni ddatblygu ein polisi mynediad agored i erthyglau ymchwil, roedd dewisiad awdur ar gyfer cyhoeddi erthyglau cyfnodolyn mynediad agored yn bwysig. Roedd cefnogi cytundebau cost effeithiol yn ystyriaeth allweddol, ac mae cydweithio gyda'r sector ymchwil i sicrhau bod y rhain yn cynnwys allbwn awdur UKRI ragweledig yn allweddol.

Cyn i'r polisi erthygl gael ei gyflwyno yn 2021, ychydig o dan 50% o allbynnau awduron rhagweledig a gynhwyswyd drwy lwybr cyfnodolyn cydymffurfiedig a chymwys ar gyfer cyllid UKRI. Bellach yn 2022, wrth i ni barhau i gyflawni uchelgais Y&A y Llywodraeth a nodau ehangach Pobl a Diwylliant, mae hyn wedi cynyddu i tua 87%, ac mae'r taflwybr yn parhau i dyfu.

Mae'r polisi'n mynnu bod canfyddiadau o ymchwil yr ydym yn ei ariannu yn fynediad agored, gan gynnwys mynediad agored ar unwaith i fonograffau a phenodau llyfrau.



Amcan 2: Lleoedd o'r radd flaenaf

Sicrhau safle'r DU fel cenedl ymchwil ac arloesi o'r radd flaenaf yn fyd-eang gyda sefydliadau, seilweithiau, sectorau a chlystyrau rhagorol ledled y wlad.

Trwy ein buddsoddiadau mewn cryfderau ymchwil ac arloesi ar draws holl ranbarthau a chenedloedd y DU, byddwn yn sicrhau buddion economaidd, cymdeithasol, a diwylliannol i bob dinesydd, yn unol â'r [Papur Gwyn Codi'r Gwastad](#). Byddwn yn creu'r amodau ar gyfer clystyrau twf-uchel lleol ledled y wlad, gan yrru twf a denu buddsoddiadau sector preifat. Mae ein buddsoddiadau mewn seilweithiau, sefydliadau a chanolfannau o'r radd flaenaf yn darparu gallu hirdymor ac yn ffactor hanfodol wrth ddenu busnesau a thalent sy'n symudol yn fyd-eang i'r DU. Byddwn yn parhau i adeiladu ar ein perthynas gref gydag ystod eang o bartneriaid allweddol ac ystyried sut y gall cymhellion yn y system gefnogi manteision ac effeithiau cryfach fyth i bobl a lleoedd ledled y wlad. Byddwn yn cysoni buddsoddiadau ffocws-cyngor a thraws-UKRI i gryfhau galluedd, gwytnwch, a chysylltedd ein system ymchwil ac arloesi i sicrhau ein statws fel arweinwyr byd-eang.

Dros y tair blynedd nesaf byddwn yn buddsoddi mewn denwyr allweddol ar gyfer buddsoddiad Y&D sector preifat er mwyn datblygu clystyrau Y&A ledled y DU, gan gyfrannu at dargedau'r Llywodraeth a BEIS ar gyfer cyllid Y&D y tu allan i'r De Ddwyrain Fwyaf. Byddwn yn buddsoddi £100 miliwn mewn tri chyflymydd arloesedd peilot, yn unol â'n hamcan o gyflawni arloesedd o'r radd flaenaf. Bydd ein buddsoddiad blynyddol mewn seilwaith yn tyfu o leiaf £200 miliwn i gyrraedd dros £1.1 biliwn yn 2024-25. Trwy ein Cronfa Seilwaith (CS) UKRI-gyfan a'r rhaglen Seilwaith Ymchwil Digidol (SYD) rydym yn

cyflawni'r ymrwymadau yn ein [Map Ffordd Seilwaith](#) i ddarparu dull cadarn a strategol o fuddsoddi ym mhob rhan o'r DU. Byddwn yn gweithio gyda'r llywodraeth i sicrhau bod seilwaith digidol yn cyd-fynd â strategaethau ac adolygiadau'r llywodraeth megis yr adolygiad Dyfodol Cyfrifiannu. Byddwn yn gweithio gyda phartneriaid, gan gynnwys y Llywodraeth, y sector preifat, a chonsortia rhyngwladol, i gyflawni prosiectau seilwaith sy'n croesi pob disgyblaeth ac yn rhychwantu'r sbectrwm ymchwil ac arloesedd.

Byddwn yn cynyddu ein buddsoddiad craidd mewn sefydliadau, canolfannau, a chyfleusterau drwy gefnogi gallu hirdymor sy'n hanfodol i gynnal ein harweinyddiaeth fyd-eang. Mae'r buddsoddiad hwn yn cynnwys cyllid ar gyfer y dalent orau yn ein sefydliadau o'r radd flaenaf – rhywbeth sy'n allweddol o ran denu ymchwilwyr ac arloeswyr symudol byd-eang ym mhob cam gyrfa. Byddwn hefyd yn ceisio optimeiddio sut rydym yn cydbwyso ein cyllid, gan ddeall y cryfderau, gwendidau, a'r pwysau ar draws y dirwedd ariannu i wella gwytnwch y system a chefnogi'r gwaith o ddarparu ymchwil ac arloesi rhagorol yn y tymor hir, gan adeiladu ar ganfyddiadau'r adolygiad annibynnol o'r [Dirwedd Sefydliadol Ymchwil, Datblygu ac Arloesi](#). Byddwn yn parhau i ddarparu'r Gronfa Fuddsoddi Partneriaeth Ymchwil y DU (UKRPIF), a reolir gan Research England mewn partneriaeth â Chyngor Cyllido'r Alban, Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru, ac Adran yr Economi, Gogledd Iwerddon, i ysgogi buddsoddiad ar y cyd mewn cyfleusterau ymchwil addysg uwch ledled y DU.

Byddwn yn:	Yn 2022-23 byddwn yn:	Er mwyn goruchwyllo maint ein cyrhaeddiad tuag at ein nodau cyffredinol, byddwn yn:
Cryfhau clystyrau a phartneriaethau – yn lleol, yn genedlaethol, ac yn fyd-eang.	Chwilio am gyfleoedd a phartneriaethau newydd i gefnogi cydweithio a chyfnewid gwybodaeth i sicrhau canlyniadau dylanwadol, gan gynnwys drwy: ■ lansio a gweithredu ein Pecyn Cymorth Lle fel bod ein rhaglenni yn adeiladu capasiti, yn cynyddu buddion, ac yn cryfhau cysylltiadau, i gefnogi codi'r gwastad ar draws y DU. ■ gwella gallu sefydliadau ymchwil i adeiladu partneriaethau traws-sector a chyflenwi effeithiau yn y byd go iawn o'u hymchwil gan ddefnyddio ein rhaglen Cyfrif Cyflymu Effaith cydwedd. A byddwn yn gweithio gyda'r Llywodraeth i ddatblygu model newydd o Gyflymyddion Arloesi (fel y'i disgrifiwyd yn y Papur Gwyn Codi'r Gwastad) i uchafu effaith economaidd ein cryfderau Y&A ym Manceinion Fwyaf, Gorllewin Canolbarth Lloegr, a Rhanbarth Dinas Glasgow. ■ dod â data iechyd, biofeddygol, gweinyddol, ac amgylcheddol ynghyd i ddarparu dealltwriaeth gynhwysfawr o'r heriau gofal iechyd mawr yn y DU drwy gynyddu cysylltedd a chynnwys ystod ehangach o bobl, sefydliadau, a busnesau yn ein gwaith, drwy bartneriaethau presennol newydd a gwell. Cymryd dull strategol o bartneru rhyngwladol, cydweithio, ac ymgysylltu drwy: ■ lansio ein Fframwaith Strategol Rhyngwladol UKRI newydd, a chefnogi cydweithio rhyngwladol a chyfleoedd rhyngddisgyblaethol. ■ gefnogi cydweithio rhyngwladol hirdymor, a gweithio gyda BEIS i ddatblygu a darparu cronfa rhyngwladol newydd. ■ gynnal a thyfu perthnasoedd dwyochrog ac amlochrog allweddol gydag asiantaethau ariannu mewn economïau sy'n arwain y byd ac sy'n datblygu drwy ein timau yn y DU a swyddfeydd UKRI yng Ngogledd America (UDA a Chanada), Brwsel, Tsieina ac India. ■ ddarparu mwy o gydlynw ac ymgysylltu ar y cyd ar flaenoriaethau ar gyfer cydweithredu rhyngwladol a pholisi tramor drwy Goncordat UKRI-FCDO, a llunio'r agenda bartneriaeth i gefnogi amcanion yr Adolygiad Integredig a Strategaeth Datblygu Rhyngwladol y DU sydd ar ddod, gan weithio gyda BEIS a'r FCDO. ■ barhau i baratoi ar gyfer y newid i gydgyssylltiad neu ddim â Horizon Europe, gan gynnwys sicrhau gwarant llywodraeth y DU o gyllid ar gyfer ymgeiswyr cymwys o'r DU sydd wedi'u gwerthuso'n llwyddiannus gan y Comisiwn Ewropeaidd.	Mesur y mathau a lledaeniad daearyddol sefydliadau a gefnogir i sicrhau ein bod yn buddsoddi mewn ymchwil ac arloesi mewn amrywiaeth o sefydliadau, ar draws pob rhanbarth, ac yn rhyngwladol. Mesur cyllid pellach a ddyfarnwyd i ymchwilwyr ac arloeswyr i fonitro sut mae'r gallu Y&A yr ydym yn ei alluogi a'i ddatblygu yn denu buddsoddiad pellach, ar draws pob rhanbarth. Mesur ehangder partneriaethau rhyngwladol i fonitro sut rydym yn galluogi partneru rhyngwladol, cydweithio, ac ymgysylltu. Mesur yr ystod o ddefnyddwyr a defnyddiau ar gyfer seilwaith Y&A allweddol i sicrhau fod ein buddsoddiadau seilwaith yn diwallu anghenion y gymuned ymchwil ac arloesi.

Byddwn yn:	Yn 2022-23 byddwn yn:	Er mwyn goruchwyllo maint ein cyrhaeddiad tuag at ein nodau cyffredinol, byddwn yn:
Gwella cynaliadwyedd ariannol ymchwil ac arloesi mewn sefydliadau ledled y DU.	Adeiladu ein dealltwriaeth a'n sylfaen dystiolaeth ar wytnwch a'i ymgorffori yn ein gwaith a'n penderfyniadau, gan gynnwys: ■ comisiynu ymchwil ar chwyddiant costau-ymchwil a pharhau i adeiladu ein sylfaen dystiolaeth gan gynnwys o amgylch sefydliadau UKRI a chanlyniadau newidiadau ariannol ar draws y dirwedd Ymchwil a Datblygu, wedi'i gymhwyso â'r canfyddiadau o'r adolygiad tirwedd sefydliadol ymchwil, datblygu, ac arloesi. ■ gweithio i wella gwytnwch ariannol y system, gan gynnwys adolygu ein dull o gostio economaidd llawn. Byddwn yn parhau i weithio gyda Chyllidwyr Datganoledig a'r Swyddfa i Fyfyrrwyr ar weithredu'r adolygiad Dull Tryloyw o Gostio (TRAC) a'r camau nesaf ar gyfer y lled buddsoddiad cynaliadwy (MSI). ■ cynnull a chysylltu'r gymuned Y&A ar gynaliadwyedd ariannol drwy grwpiau sy'n cael eu harwain gan y sector, gan gynnwys y Grŵp Cynaliadwyedd Ariannol Ymchwil, cynyddu cydweithio, ymgysylltu, a rhannu gwybodaeth.	
Seilweithiau blaengar cadarn ar gyfer ymchwil ac arloesi o'r radd flaenaf.	Sicrhau bod gan ymchwilwyr y DU fynediad i gyfleusterau labordai, offer, ac adnoddau digidol o'r radd flaenaf, gan gynnwys drwy: ■ fuddsoddi mewn cyfleusterau ar draws y DU gan gyfrannu at gystystrau lleol a denu o leiaf £200 miliwn mewn buddsoddiad o'r sector preifat drwy'r rownd nesaf o UKRPIF. ■ roi hwb i alluoedd ymchwil ac arloesi'r DU drwy fuddsoddi £59 miliwn (fel rhan o fuddsoddiad o £482 miliwn dros 3 blynedd), wrth barhau i ddarparu'r Gronfa Seilwaith, yn cyd-fynd â gweithgareddau cyngor-benodol, gan gefnogi buddsoddiad strategol hirdymor fel rhan o Fap Ffordd Seilwaith UKRI. ■ galluogi ymchwilwyr y DU i harneisio pŵer llawn llwyfannau, offer, a thechnegau digidol modern, gan fuddsoddi £17 miliwn (yn codi i £70 miliwn yn 2024-25) drwy'r Rhaglen Seilwaith Ymchwil Ddigidol. ■ gynnal ein seilwaith a'n galluoedd blaengar ar raddfeydd amrywiol ac ar draws ein hystadau trwy fuddsoddi £532 miliwn (gan godi i £625 miliwn yn 2024-25) drwy ein Cynghorau Ymchwil ac Ymchwil Lloegr¹ fel rhan o'n rhaglen Labordai O'r Radd Flaenaf. Mae hyn yn cynnwys cyllid cyfalaf i'n sefydliadau, seilwaith mawr rhyngwladol megis CERN - y Sefydliad Ewropeaidd ar gyfer Ymchwil Niwclear, ac i gefnogi ein Seilwaith Antartig². ■ adeiladu partneriaethau cenedlaethol a rhyngwladol o fewn seilweithiau ymchwil ac arloesi i gataleiddio gwybodaeth a rhannu gallu ar draws ffiniau, gan wella ein gallu i adnabod meysydd sydd o ddiddordeb ac sy'n dod i'r amlwg.	

1. Caiff dyraniadau HERC i gyrrff ariannu Addysg Uwch gweinyddiaethau datganoledig eu dyrannu gan BEIS

2. Mae hyn ochr yn ochr â chyllid o ffrydiau adnoddau ychwanegol o fewn UKRI.

Uchafbwynt: Cefnogi ystwythder ein hymchwil prifysgol rhagorol

Mae gan brifysgolion rôl ganolog a neilltuol ar gyfer y gymdeithas a'r economi. Mae cyllid ar gyfer ymchwil yn ymwneud ag ansawdd (QR), ochr yn ochr â Chyllid Arloesi Addysg Uwch (HEIF) yn hanfodol ar gyfer cynaliadwydd ymchwil ac arloesi Lloegr wrth i brifysgolion barhau i ddarparu effeithiau cymdeithasol ac economaidd i bob cymuned. Mae'n darparu cyllid sefydlog a hyblyg i brifysgolion yn Lloegr i nodi a chyflawni eu huchelgeisiau ymchwil strategol, a hynny'n aml mewn partneriaeth â busnes, elusennau, a sefydliadau eraill. Mae QR yn ffurfio un ochr i'r system 'Cymorth Deuol' nodedig yn Lloegr; darperir cyllid tebyg gan y cyrff ariannu addysg uwch yng Nghymru, yr Alban, a Gogledd Iwerddon.

Mae'r cyllid hwn yn cefnogi gallu a seilwaith hanfodol, gan ategu gweithgareddau ymchwil sy'n cael eu hariannu gan grantiau, ac mae'n galluogi prifysgolion i fuddsoddi mewn gweithgareddau mwy hirdymor yn ogystal ag ymateb i heriau tymor byr a chanolig. Mae hefyd yn cynorthwyo prifysgolion i fuddsoddi mewn datblygiad ymchwilwyr a'r gweithlu academaidd i wella diwylliant ymchwil.

Bydd y cynnydd yn y cyllid QR (£1,974 miliwn erbyn hyn) a HEIF (£260 miliwn erbyn hyn) ar draws y cyfnod Adolygu Gwariant yn darparu cefnogaeth aml-flwyddyn barhaus i gyfnewid ymchwil a gwybodaeth (CG) ym mhrifysgolion Lloegr.

Technoleg Flaengar i Ddeall Dylanwad Bywyd Morol ar Storio Carbon Cefnforol

Mae'r cefnfor byd-eang yn amsugno swm sylweddol o garbon, ac mae deall sut y gallai hyn newid yn hanfodol ar gyfer cynllunio polisi Sero Net. Gan gymryd dull rhyngddisgyblaethol a dod â gwahanol setiau sgiliau ynghyd drwy NERC, byddwn yn cynnull y gymuned arsylwi a modelu i fanteisio ar ddatblygiadau llawn mewn technoleg (megis cerbydau awtonomaidd, synwryddion newydd, a thechnegau moleciwlaidd) i ddeall rôl bywyd morol yn storio carbon dyfodol.

Mae'r rhaglen yn trosoli arbenigedd y DU mewn modelu arsylwi a charbon cefnforol gyda thechnoleg forol newydd ar gyfer synhwyro a chasglu data, yn ogystal â'n llongau ymchwil a chyllid Gallu Cenedlaethol ar gyfer setiau data hirdymor. Bydd yn cyfranu'n sylweddol i ganlyniad Degawd Gwyddor y Cefnforoedd y Cenhedloedd Unedig o 'gefnfor ragweledig', ac yn cynyddu dealltwriaeth cyn i'r 7fed adroddiad asesu IPCC gan y Panel Rhynglywodraethol ar Newid Hinsawdd gael ei gyhoeddi.

Astudiaethau achos

Cefnogi Ymchwil o'r Radd Flaenaf

Mae Cronfa Fuddsoddi Partneriaeth Ymchwil y DU (UKRPIF), a reolir gan Research England, yn gynllun ar gyfer y DU gyfan a gynlluniwyd i gefnogi buddsoddiad mewn cyfleusterau ymchwil addysg uwch sy'n ymgymryd ag ymchwil o'r radd flaenaf. Rhaid i unrhyw arian a ddarperir gael ei gyfateb ddwy waith gan fuddsoddwyr o'r sector breifat. Rydym wedi buddsoddi dros £900 miliwn ar draws 53 o brosiectau ers 2012, gan ddatgloi dros £2.2 biliwn mewn ymrwymadau cyd-fuddsoddi gan bartneriaid sydd wedi'u lleoli yn y DU a thramor. Gyda 39 o brosiectau wedi'u cwblhau, rydym yn dechrau gwireddu rhai o fanteision y gronfa, gan gynnwys cydleo staff academaidd gyda chynrychiolwyr o'r diwydiant a phartneriaid ehangach, meithrin cyfnewid gwybodaeth a rhannu arbenigedd ar draws cadwyni cyflenwi; ac effaith gadarnhaol ar barodrwydd marchnad ymchwil ar gyfer defnydd gan ddefnyddwyr a'r gymdeithas gyda chymwysiadau patent, cynhyrchion wedi'u cyflwyno, a refeniw o eiddo deallusol. Yn 2018 cyhoeddodd Belmana Consulting a Phrifysgol Middlesex [werthusiad interim o gynllun UKRPIF](#).

Amcan 3: Syniadau o'r radd flaenaf

Hyrwyddo ffiniau gwybodaeth ac arloesi dynol drwy alluogi'r DU i fanteisio ar gyfleoedd o dueddiadau ymchwil sy'n dod i'r amlwg, dulliau amlddisgyblaethol a chysyniadau a marchnadoedd newydd.

Gall ymchwil ar sail chwilfrydedd greu syniadau newydd radical, gan gynyddu ein dealltwriaeth o'n hunain a'r byd o'n cwrpas a darparu'r sylfeini i ddatrys heriau cymhleth y presennol a'r dyfodol. Rydym wedi ymrwmo i hyrwyddo ffiniau gwybodaeth ddynol a galluogi'r DU i fanteisio ar gyfleoedd o dueddiadau ymchwil sy'n dod i'r amlwg, dulliau amlddisgyblaethol a marchnadoedd newydd drwy fuddsoddi mewn ac ysgogi cyfleoedd sy'n galluogi ymchwil ac arloesi arloesol. Trwy gefnogi syniadau gwybodaeth lle bynnag y cânt eu canfod, gallwn ddenu talent genedlaethol a fyd-eang, gan alluogi pobl a thimau i archwilio a bod yn greadigol.

Dros y tair blynedd nesaf byddwn yn buddsoddi £3.8 biliwn drwy alwadau agored ac ymatebol, a thrwy ein buddsoddiadau ffocws-cyngor. Disgrifir y rhain yn fanwl yn ein [Cynlluniau Cyflawni Strategol y Cyngor](#). Mae'r buddsoddiadau hyn yn cefnogi amrywiaeth eang o syniadau, ac yn datblygu'r bobl a'r timau sydd eu hangen i archwilio ffiniau newydd a defnyddio gwybodaeth mewn ffyrdd newydd a thrawsnewidiol. Byddwn yn gweithio gyda'n partneriaid i ddileu rhwystrau i weithio amlddisgyblaethol a rhyngddisgyblaethol i sicrhau ein bod yn creu'r amgylchedd agored sydd ei angen er mwyn i syniadau newydd ffynnu.

Er mwyn cefnogi'r amrywiaeth lawn o syniadau sydd eu hangen, rydym wedi ymrwmo i wella ein blwch offer o fecanweithiau cyllido. I ategu cynlluniau rhyngddisgyblaethol mwy cyfarwydd, byddwn yn treialu rhaglen modd ymatebol rhyngddisgyblaethol newydd traws-UKRI gwbl agored i ariannu syniadau rhagorol sy'n rhychwantu ffiniau disgyblu traddodiadol, gan fuddsoddi £65m dros y cyfnod adolygu gwariant sy'n dechrau yn 2023-24. Bydd hyn yn llenwi blwch a nodwyd ar gyfer syniadau o'r-gwaelod-i-fyny heb gyngor 'cartref' naturiol i wneud cais iddo, gan sicrhau y gallwn ariannu'r syniadau gorau heb gyfyngiadau disgyblaethol neu barth.

Byddwn hefyd yn cydweithio â'n partneriaid rhyngwladol yn yr ymdrech ar y cyd i ddarganfod a datblygu technolegau newydd a galluogi cwmnïau i lwyddo yn fyd-eang. Byddwn yn parhau i gefnogi rhaglenni ymchwil ac arloesedd hirsefydlog, agored, ymatebol a pherthnasau ariannu strategol. Byddwn hefyd yn gweithio gyda'r Llywodraeth i ddatblygu olynwyr i fecanweithiau cyllid rhyngwladol sy'n bodoli eisoes, gan gynnwys cronfeydd ODA.

Byddwn yn:	Yn 2022-23 byddwn yn:	Er mwyn goruchwyllo maint ein cyrhaeddiad tuag at ein nodau cyffredinol, byddwn yn:
Buddsoddi mewn portffolio amrywiol a deinamig o ymchwil ac arloesi creadigol o ansawdd uchel.	Buddsoddi mewn portffolio deinamig o ymchwil ac arloesi creadigol, sy'n cael ei yrru gan chwilfrydedd drwy ddulliau ymatebol a rhaglenni ariannu sy'n gysylltiedig ag ansawdd, fel rhan o'r system gymorth ddeuol, gan gynnwys: ■ monitro a dadansoddi ein portffolio buddsoddi, a sganio gorwelion, i nodi a deall tueddiadau, bylchau, a chyfleoedd am synergeddau pellach ar draws UKRI. ■ adeiladu ein partneriaethau rhyngwladol, cydweithrediadau, a chyfnewid gwybodaeth gan gynnwys drwy gyflawni ymrwymïadau yn effeithiol o dan y Gronfa ar gyfer Cydweithio Rhyngwladol (FIC), Cronfa Newton a'r Gronfa Ymchwil Heriau Byd-eang, gan fuddsoddi cyfanswm o £179 miliwn³.	Mesur ehangder ac amrywiaeth yr ymchwil a'r arloesedd a gefnogir, a'u cynnyrch a'u canlyniadau i sicrhau ein bod yn cefnogi darganfyddiadau, technolegau, ac arloesedd newydd sy'n torri tir newydd neu'n drawsnewidiol. Mesur nifer fechan o brocsïau ar gyfer aml-ddisgyblaeth a rhyngddisgyblaeth i asesu i ba raddau yr ydym yn cefnogi Y&A rhwng disgyblaethau.
Cymell a chael gwared ar rwystrau i waith aml- a rhyngddisgyblaethol.	Datblygu mecanweithiau cyllido sy'n helpu i ddal y syniadau gorau heb eu cyfyngu gan ffiniau disgyblaethol, trwy weithgareddau traws-gyngor targedig a arweinir gan y cyngor, a gweithgareddau UKRI-cyfan gan gynnwys: ■ datblygu peilot modd ymatebol traws-UKRI sy'n gwbl agored i gefnogi syniadau creadigol sy'n rhychwantu cylchoedd gwaith y cyngor ymchwil traddodiadol a llenwi bwlch a nodwyd ar gyfer syniadau aflonyddgar heb unrhyw gyngor 'cartref' amlwg, yn barod i'w lansio yn 2023-24. ■ parhau i ariannu ymchwil effaith uchel, aml-ddisgyblaeth a rhyngddisgyblaethol mewn meysydd strategol, gan gynnwys yr amgylchedd, deallusrwydd artiffisial, cynhyrchiant, a thechnolegau digidol drwy 34 rhaglen sefydledig y Gronfa Flaenoriaeth Strategol. ■ meithrin cydweithio rhyngddisgyblaethol, er enghraifft drwy weithio ar draws AHRC, BBSRC, EPSRC, MRC a STFC i sicrhau bod gan y DU fynediad i'r offer a thechnolegau'r genhedlaeth nesaf o ran synhwyro a delweddu trwy fuddsoddi mewn prosiectau peilot i ddatblygu technolegau sylfaenol. Drwy'r cydweithio hwn, ein nod yw cynyddu ein gallu i wneud, mesur a modelu'r byd o'n cwmpas.	Adeiladu banc astudiaeth achos o enghreifftiau o sut rydym wedi lleihau a/ neu ddileu rhwystrau i ymchwil ac arloesi aml- a rhyngddisgyblaethol (MIDRI) i fonitro sut rydym yn helpu i wella'r cyfleoedd ar gyfer MIDRI.

3. Bydd Cronfa Newton yn dod i ben ar 31 Mawrth 2023. Bydd FIC a'r Gronfa Ymchwil Heriau Byd-eang yn parhau tan 31 Mawrth 2025.

Uchafbwynt: Profi ffyrdd newydd o ddatgelu syniadau trawsnewidiol

Lansiwyd [porth](#) ar ein gwefan i helpu pawb i ddeall sut i gyflwyno eu syniadau gwyb i ni. Fel rhan o ddatblygiad strategol, mae pob un o Gynghorau'r UKRI yn cynnal prosesau syniadau er mwyn ymgysylltu â'r gymuned ymchwil ac arloesi a thu hwnt i nodi syniadau cyffrous, anturus, ac o bosib trawsnewidiol; syniadau a fydd yn sbarduno creadigrwydd ac yn denu brwdfrydedd ymchwilwyr, y cyhoedd, diwydiant, a'r llywodraeth ac o bosib yn llywio'r genhedlaeth nesaf o flaenoriaethau ymchwil ac arloesi.

Gan gydnabod y bydd syniadau gwirioneddol fawr yn aml yn gofyn am weithio ar draws disgyblaethau a sectorau, mae ein Cynghorau'n gweithio gyda'i gilydd i nodi synergeddau posibl ar draws cylchoedd gwaith a datblygu syniadau mewn ffordd gysylltiedig ag ystwyth ble bynnag y cyflwynir y syniad.

Astudiaeth achos

Cefnogi gweithio aml- a rhyngddisgyblaethol er mwyn lleihau anghydraddoldebau o ran iechyd y cyhoedd

Nid oes gan yr un cyllidwr ymchwil yr adnoddau na'r arbenigedd i fynd i'r afael â'r ffactorau a'r systemau cymhleth sy'n dylanwadu ar iechyd ar eu pen eu hunain. Mae MRC felly'n arwain Partneriaeth Ymchwil Ataliad y DU (UKPRP) sydd werth miliynau o bunnoedd ac yn cynnwys deuddeg cyllidwr gan gynnwys elusennau, NERC, EPSRC, ESRC ac adrannau iechyd a gofal cymdeithasol y DU.

Mae'r UKPRP wedi sefydlu chwe chonsortiwm fel ActEarly, a ddatblygodd y cynllun Glasses in Classes ar ôl i astudiaethau ddangos nad yw 30% o ddisgyblion sydd angen sbectol wedi bod i weld optegydd, a bod plant sydd dan anfantais yn llai tebygol o gael neu wisgo'r sbectol sydd eu hangen arnynt.

Wedi'i ddatblygu gyntaf yn ysgolion Bradford, mae bellach wedi derbyn cyllid dilynol o'r Adran Cyfle Addysg i gyrraedd 9,000 o ddisgyblion eraill mewn o leiaf 225 o ysgolion yn Lloegr.



Amcan 4: Arloesedd o'r radd flaenaf

Gwireddu gweledigaeth y llywodraeth ar gyfer y DU fel cenedl arloesi drwy weithredu ar y cyd ar draws UKRI.

Arloesi yw anadl einioes twf economaidd dyfodol y DU. Wrth gynyddu ein ffocws ar arloesi ar draws pob rhan o UKRI byddwn yn gwireddu potensial llawn sylfaen ymchwil a galluoedd cenedlaethol penigamp y DU ac yn hyrwyddo amgylchedd arloesi ysbrydoledig. Mae ein cefnogaeth diwedd-i-ddiwedd ar gyfer arloesedd a buddsoddiadau ar draws ein cynghorau ymchwil, Research England, ac Innovate UK, gan gynnwys trwy Gatapylliau a seilwaith arloesol eraill, technolegau a chefnogaeth strategol bwysig i fusnesau, yn gweithredu fel magnet ar gyfer talent fyd-eang a buddsoddiad yn y sector preifat. Byddwn yn gwella cryfder arloesedd ar draws ein portffolio a gyda ffocws o'r newydd ar yrru cydweithrediadau deinamig ymlaen ar draws UKRI. Mae'r amgylchedd ystwyth, bywiog, creadigol hwn yn allweddol i gynyddu'r buddsoddiad Y&D ledled yr economi tuag at 2.4% o CMC a thu hwnt, ac i godi twf a chynhyrchiant y DU.

Dros y tair blynedd nesaf byddwn yn cynyddu ein gwariant arloesedd 66% i wneud y DU y lle gorau yn y byd i arloesi, buddsoddi, a thyfu busnes – canolfan fyd-eang ar gyfer arloesi. Gyda chyllideb o fwy na £1 biliwn y flwyddyn erbyn 2024-25, wedi'i chymhwyso â buddsoddiadau ein cyngor, bydd Innovate UK yn cyflawni'r blaenoriaethau a nodir yn ei [Gynllun Gweithredu](#) a'r Cynllun Cyflenwi Strategol a'r uchelgeisiau yn [Strategaeth Arloesi](#)'r Llywodraeth.

Byddwn yn cryfhau cysylltedd ar draws UKRI, gan uchafu effaith ein buddsoddiad craidd mewn masnacheiddio ymchwil ac arloesi, ac yn cefnogi arfer gorau ym maes dylunio a chyflawni rhaglenni drwy ein Fframwaith Cyllido Masnacheiddio Ymchwil UKRI newydd a'n Fframwaith Monitro

a Gwerthuso Masnacheiddio Ymchwil. Bydd rhaglen Gyfrif Cyflymu Effaith UKRI newydd yn buddsoddi £118 miliwn mewn mwy na 60 o sefydliadau ar draws y DU. Bydd yr arian hwn yn grymuso timau ymchwil i archwilio'r llwybrau effaith gorau ar gyfer canlyniadau eu hymchwil, gan gynnwys masnacheiddio a phartneriaethau busnes.

Fel elfen allweddol o'n cynlluniau, byddwn yn datblygu cyfres o bartneriaethau strategol ar draws UKRI er mwyn sbarduno twf economaidd drwy arloesedd busnes a masnacheiddio. Bydd y rhain yn galluogi gweithgarwch effaith uchel ar draws system fusnes ac ymchwil arloesol y DU i fynd i'r afael â rhai o heriau mwyaf dybryd y DU a'r byd yn gyffredinol, fel Adeiladu Dyfodol Gwyrdd. Byddwn hefyd yn ehangu rhaglenni ar y rhyngwyneb rhwng busnes a'r byd academiaidd, megis Partneriaethau Trosglwyddo Gwybodaeth ac [Arloesedd i Fasnacheiddio Ymchwil Prifysgolion](#) (ICURE), gan alluogi diwydiant y DU i adeiladu ar feysydd o gryfder gwyddoniaeth a thechnoleg.

Byddwn yn angori ac yn cymell busnesau a chydweithio prifysgol ymhellach, gan gefnogi datblygu clystyrau Ymchwil a Thechnolegol bywiog ledled y DU, gan adeiladu ar raglenni llwyddiannus megis [Cronfa Arloesi Addysg Uwch](#) (HEIF), [Cronfa Fuddsoddi Partneriaeth Ymchwil y DU](#) (UKRPIF), ac elfen fusnes cyllid [Ymchwil sy'n gysylltiedig ag ansawdd](#) (QR). Byddwn yn cydlynw'r gweithgaredd hwn gyda'n cynnig talent i sicrhau bod busnesau'n gallu cael mynediad at y dalent, y sgiliau a'r wybodaeth sydd ei angen, a bod y system gyfan wedi'i chysylltu'n ddwfn, fel y gall syniadau ddod o hyd yn gyflym i atebion ac atebion ddod o hyd i farchnadoedd.

Byddwn yn:	Yn 2022-23 byddwn yn:	Er mwyn goruchwyllo maint ein cyrhaeddiad tuag at ein nodau cyffredinol, byddwn yn:
Darparu'r sgiliau, y cyllid a'r cyfleoedd cydweithio sydd eu hangen i hybu buddsoddiad gan y sector preifat.	Gweithio ar draws y system i gefnogi arloesedd drwy gysoni cyfleoedd cyngor ymchwil a buddsoddiadau Innovate UK, gan gynnwys: ■ meithrin cysylltiadau a chydweithio drwy ehangu rôl Innovate UK Knowledge Transfer Network (KTN), gan gynyddu'r cyllid craidd i £15 miliwn y flwyddyn. ■ cyflenwi'r gweithgareddau a nodir yn y cynllun ar gyfer gweithredu megis Innovate UK Edge a'r rhaglen Grant Clyfar, ochr yn ochr â chynlluniau cyflenwi strategol ein cyngor. Bydd hyn yn cynnwys cyd-fynd â'n rhaglenni talent i gefnogi amrywiaeth llwybrau gyrfa a sicrhau bod y sgiliau a'r cysylltedd sydd eu hangen i gyflawni ein cynlluniau arloesedd yn cael ei ddatblygu. Gweithio gyda phartneriaid ledled y byd i ddarparu rhaglenni o gydweithio rhyngwladol ar arloesedd, gan gynnwys: ■ gwneud y mwyaf o effaith Arlywyddiaeth y DU o TAFTIE, Rhwydwaith Ewropeaidd Asiantaethau Arloesi, yn 2022. ■ darparu dros £10 miliwn o gymorth arloesi drwy weithgareddau dwyochrog ac amlochrog rhyngwladol gyda gwledydd partner, gan gynnwys £6.5 miliwn drwy'r rhaglen EUREKA Eurostars o fewn Innovate UK.	Mesur tueddiadau o ran faint o gyllid a chydweithrediadau ymchwil a ddyfarnwyd i ddiwydiannau penodol i fonitro cyfleoedd diwydiannol newydd neu sy'n dod i'r amlwg. Mesur sgiliau masnachol newydd, cydweithrediadau a phartneriaethau ac eiddo deallusol a gefnogir gan ein cyllid i fonitro sut rydym yn cryfhau galluedd arloesi, entrepreneuriaid a masnacheiddio.
Cyflymu'r broses o drosi, masnacheiddio a chyflnewid gwybodaeth.	Trosoli cyfleoedd masnacheiddio ymchwil newydd a phresennol gan gynnwys: ■ cyhoeddi ein Datganiad Gweledigaeth ac Uchelgais newydd ar gyfer Masnacheiddio Ymchwil, i dynnu sylw at sut y byddwn yn meithrin diwylliant agored, cynhwysol, a chydweithredol ar draws y system ymchwil ac arloesi, gan ddod â sefydliadau ymchwil, busnesau, buddsoddwyr, a llunwyr polisiâu yn agosach at ei gilydd i fasnacheiddio syniadau. ■ gweithredu Fframwaith Cyllid Masnacheiddio Ymchwil UKRI-gyfan i gefnogi ymgeiswyr gyda chynnig ymgeisio a chymorth mwy cysonedig. ■ datblygu ein partneriaeth gyda British Business Bank (BBB) a chyhoeddi dadansoddiad data UKRI-BBB ar ein cefnogaeth i gwmnïau arloesol cyfnod-cynnar i ddatblygu ein dealltwriaeth bellach o sut mae cwmnïau yn defnyddio'r cyfalaf sydd ei angen arnynt i ddatblygu a thyfu. ■ adeiladu ein gallu mewnol a gwella cysylltedd traws-ddisgyblaethol rhwng rhaglenni UKRI, gan gynnwys gwella canllawiau a chyfeirio, a gwella cydweithio rhwng cynlluniau'r cyngor fel bod cymorth ar gael ar yr adeg gywir. ■ rhoi ein fframwaith monitro masnacheiddio ymchwil ar waith i feithrin ymhellach ein dealltwriaeth o'r hyn sy'n gweithio er mwyn llywio ymyriadau dyfodol a dal a dangos gwerth ein hymyriadau yn effeithiol.	Mesur canlyniadau arloesedd fel y casglwyd drwy ein prosesau monitro, i nodi sut rydym yn cynyddu ffyniant ledled y DU.

Uchafbwynt: Cyfnewid Gwybodaeth i Gefnogi Arloesi a Masnacheiddio

Mae'r Gronfa Arloesi Addysg Uwch (HEIF), a ddarperir drwy Research England ac mewn partneriaeth â'r Swyddfa Myfyrwyr, yn cefnogi sefydliadau addysg uwch (HEIs) yn Lloegr i weithio gyda sefydliadau busnes, cyhoeddus a thrydydd sector, cyrff cymunedol a'r cyhoedd ehangach, i gyfnewid gwybodaeth a chynyddu'r budd economaidd a chymdeithasol o'u gwaith.

Mae'r Connecting Capability Fund (CCF) yn adeiladu ar y galluedd a ddatblygwyd o'r Cyllid Arloesi Addysg Uwch trwy gefnogi sefydliadau addysg uwch i gydweithio a rhannu arferion gorau masnacheiddio drwy brosiectau cystadleuol er mwyn ceisio cryfhau cyfraniad sefydliadau addysg uwch yn Lloegr at gynhyrchiant a thwrf economaidd.

Astudiaeth achos

Cynyddu maint busnesau arloesol gydag Innovate UK EDGE

Ym mis Mai, cyhoeddassom ein [hasesiad crynhoi interim](#) o Innovate UK EDGE, a ganfu fod y Rhaglen Scaleup yn darparu elw uchel ar fuddsoddiad, boed fel gwerth gros sail-cyflogaeth, (gan wireddu £12.20 mewn gwerth am bob £1 a wariwyd ar y rhaglen) neu werth gros sail-proffidioldeb (gan wireddu £25.60 am bob £1 a wariwyd).

Mae hefyd wedi creu 8 swydd gyfatebol llawn amser ar gyfartaledd, yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol, fesul cwmni sy'n cymryd rhan, ac mae 86% yn credu bod y rhaglen hon yn gynhenid i'r twf a welsant. Mae'r rhaglen wedi grymuso busnesau sy'n cael eu gyrru gan arloesi i dyfu ar gyflymder ac wrth raddfa, drwy ddarparu cymorth arbenigol arloesi a thwrf pwrpasol.



Amcan 5: Effeithiau o'r radd flaenaf

Canolbwyntio gwyddoniaeth ac arloesi penigamp y DU er mwyn targedu heriau byd-eang a chenedlaethol, creu a manteisio ar dechnolegau yfory, ac adeiladu'r sectorau busnes twf-uchel y dyfodol.

Mae ein hymrwymiad i gysylltu syniadau o'r radd flaenaf gydag arloesedd o'r radd flaenaf yn rhoi'r sylfeini ar gyfer effeithiau o'r radd flaenaf, gan sicrhau mantais gystadleuol y DU mewn technolegau sy'n dod i'r amlwg. Byddwn yn creu cyfleoedd i lywio ein gwyddoniaeth a'n harloesedd o'r radd flaenaf mewn heriau byd-eang a chenedlaethol, creu a manteisio ar dechnolegau yfory, ac adeiladu sectorau busnes twf uchel y dyfodol i alluogi newid trawsnewidiol ac ehangiad busnesau'r DU mewn marchnadoedd byd-eang.

Dros y tair blynedd nesaf byddwn yn harneisio pŵer llawn system Y&A y DU i fynd i'r afael â heriau mawr, cymhleth sy'n rhychwantu disgyblaethau ac yn effeithio ar sawl sector o'r economi. Gan adeiladu ar ddegawdau o fuddsoddiad UKRI sy'n sail i ragoriaeth y DU o fewn ac ar draws y saith teulu technoleg a nodir yn Strategaeth Arloesi'r Llywodraeth, byddwn yn cynyddu buddsoddiad mewn datblygu a mabwysiadu technolegau dros y tair blynedd nesaf drwy ein 9 cyngor gan gynnwys, datblygu rhaglen i gael mantais strategol o dechnolegau potensial uchel. Byddwn yn cynyddu ein buddsoddiad blynyddol yn y saith teulu technoleg (Deunyddiau a Gweithgynhyrchu Uwch; DA,

Cyfrifiadura Digidol ac Uwch; Biowybodeg a Genomeg; Bioleg Peirianeg; Electroneg, Ffotoneg a Chwantwm; Technolegau Ynni a'r Amgylchedd; Roboteg a Pheiriannau Smart), o ymchwil darganfod hyd at fabwysiad a lledaeniad.

Byddwn yn cymryd agwedd strategol a chydlynus tuag at ein buddsoddiad mewn technolegau, i ymateb gydag ystwythder i gyfleoedd sy'n dod i'r amlwg, trosoli buddsoddiad ychwanegol trwy gydweithio â busnesau, adrannau eraill y llywodraeth a chyllidwyr eraill, a chreu diwydiannau dyfodol sydd wedi'u gwreiddio mewn clystyrau sy'n arwain y byd, gan gynnwys gyrru cystadleurwydd byd-eang yn y diwydiannau creadigol yn unol â'r weledigaeth sector.

Gan adeiladu ar fuddsoddiadau presennol a arweinir gan gynghorau, byddwn yn buddsoddi o leiaf £185 miliwn yn ychwanegol i gefnogi pum thema strategol (*Adeiladu Dyfodol Gwyrddach, Sicrhau Iechyd, Heneiddio a Llesiant Gwell, Mynd i'r afael â Heintiau, Adeiladu Byd Diogel a Gwydn, a Chreu cyfleoedd, Gwella Canlyniadau*). Bydd y cyllid cyfunol hwn yn targedu ymyriadau sy'n dal synergeddau o'n buddsoddiadau presennol tra'n denu buddsoddiad gan gyllidwyr eraill.

Byddwn yn:	Yn 2022-23 byddwn yn:	Er mwyn goruchwyllo maint ein cyrhaeddiad tuag at ein nodau cyffredinol, byddwn yn:
Mynd i'r afael â heriau cenedlaethol a byd-eang o bwys.	Cefnogi ein pum thema strategol, dal synergeddau o fuddsoddiad ehangach ar draws UKRI a throsoli cefnogaeth o ffynonellau eraill, gan gynnwys datblygu cynlluniau ar gyfer buddsoddiadau tymor hwy (wedi'u galluogi gan o leiaf £185 miliwn o fuddsoddiad pellach o 2023-24 i 24-25), trwy: ■ Adeiladu dyfodol gwyrdd – mynd i'r afael â heriau amgylcheddol a sero-net ym mhob sector o'r economi, gan gynnwys chwyddo buddsoddiadau i liniaru materion nwyon tŷ gwydr a chefnogi addasu a monitro newid yn yr hinsawdd. ■ Sicrhau gwell iechyd, heneiddio a lles – gwella iechyd pobl a hyrwyddo lles i gynnal cymunedau llewyrchus, cynhyrchiol a gwydn ledled y DU ac yn fyd-eang, cefnogi'r Weledigaeth Gwyddorau Bywyd y DU drwy fynd i'r afael â heriau ynghylch heneiddio, byw gyda chyflyrau lluosog, iechyd meddwl, ac anghydraddoldebau iechyd. ■ Mynd i'r afael â heintiau – diogelu, a gwella ein hiechyd, ein cyflenwad bwyd a'n cyfalaf naturiol trwy weithio mewn partneriaeth ar draws UKRI, adrannau'r llywodraeth a diwydiant i feithrin gwybodaeth a galluoedd i ganfod a tharfu ar ymddangosiad a lledaeniad clefydau dynol, anifeiliaid a phlanhigion, cyflymu brechlynnau a therapiwtegau newydd (gan sicrhau gwaddol ymateb ymchwil COVID-19) ac atal 'pandemig symudiad araf' ymwrthedd gwrthficrobaidd. ■ Adeiladu byd diogel a gwydn – harneisio ymchwil ac arloesedd i gryfhau ein diogelwch a'n gwytnwch, leihau bregusrwydd, a chynyddu maint ein parodrwydd a'n hymateb i ac adferiad o siociau yn deillio o beryglon amgylcheddol a rhai a achosir gan bobl. ■ Creu cyfleoedd, gwella canlyniadau – gan gynnwys gweithio ar y cyd ac ar draws UKRI i ddeall achosion ac effeithiau anghyfartaledd ar sail lleoedd, hyrwyddo ffyniant trwy ein gwaith i sbarduno ffyniant ar draws rhanbarthau a'r DU a gweithio gyda llunwyr polisi ac ymchwilwyr i nodi bylchau allweddol o ran anghydraddoldebau rhanbarthol drwy ganolfannau rhagoriaeth fel y Sefydliad Astudiaethau Cyllidol (IFS), canolfan ymchwil iechyd meddwl. Cefnogi busnesau i gael effaith mewn meysydd her allweddol drwy barhau i ddarparu'r Gronfa Her Strategaeth Ddiwydiannol. Trwy gydweithrediaid cryf rhwng diwydiant, y byd academaidd, a'r sector cyhoeddus, mae'r 20 her eisoes wedi trosoli cyd-fuddsoddiad sylweddol yn llwyddiannus.	Datblygu banc astudiaeth achos sy'n datgelu'r amgylchiadau y mae Y&A a gefnogir gan UKRI wedi helpu i fynd i'r afael â heriau economaidd a chymdeithasol, gan gynnwys (ond heb fod yn gyfyngedig i) Adeiladu Dyfodol Gwyrddach; Sicrhau Gwell Iechyd, Heneiddio a Llesiant; Mynd i'r afael â Heintiau; Adeiladu byd diogel a gwydn; a Chreu cyfleoedd a gwella canlyniadau. Datblygu banc astudiaeth achos sy'n datgelu'r amgylchiadau y mae Y&A a gefnogir gan UKRI wedi helpu i gynyddu ffyniant drwy yrru twf economaidd a chynhyrchiant; galluogi cyfranogiad economaidd; diogelu neu gynyddu capasiti economaidd; gwella gwytnwch i sioc economaidd; osgoi costau economaidd; a chefnogi twf economaidd rhanbarthol. parhau...

Byddwn yn:	Yn 2022-23 byddwn yn:	Er mwyn goruchwyllo maint ein cyrhaeddiad tuag at ein nodau cyffredinol, byddwn yn:
Harneisio'r cyfleoedd o dechnolegau yfory.	Hyrwyddo mabwysiad a lledaeniad y saith teulu technoleg blaenoriaeth fel yr amlinellir nhw yn Strategaeth Arloesi 'r Llywodraeth, gan gynnwys: ■ sefydlu'r Gronfa Datblygu Saith Teulu Technoleg. ■ cynnull trafodaethau aml-asiantaeth, nodi blaenoriaethau cydfuddiannol a siapio gweithgareddau cydweithredol mewn technolegau trawsnewidiol, er enghraifft, trwy gyflawni'r Datganiad ar DA a'r Datganiad ar Gwantwm, gan weithio gyda chyllidwyr y DU a phartneriaid y Llywodraeth. ■ datblygu cam nesaf y Rhaglen Technolegau Cwantwm Cenedlaethol, gweithio drwy EPSRC a gyda BEIS, y Bwrdd Cyngori Strategol a'r Bwrdd Rhaglen, gan nodi buddsoddiad mewn hybiau dyfodol a chyflymu atyniad y farchnad ar gyfer technolegau cwantwm sy'n dod i'r amlwg ac sy'n cyd-fynd â'r rhaglen. ■ datblygu rhaglen i gael mantais strategol o dechnolegau potensial uchel.	Datblygu banc astudiaeth achos sy'n datgelu'r amgylchiadau y mae Y&A a gefnogir gan UKRI wedi helpu i wella bywydau mewn ffyrdd eraill, gan gynnwys trwy wella iechyd, cynyddu lles, cyfoethogi diwylliant, galluogi cynhwysiant, gwella cyfalaf cymdeithasol, cynyddu diogelwch, gwella diogelwch, a diogelu'r amgylchedd.
Trawsnewid sectorau sy'n allweddol i economi'r dyfodol.	Archwilio cyfleoedd i drosoli cefnogaeth a gyrru sectorau newydd a presennol megis gwyddorau bywyd, gofod, a'r sectorau dylunio a diwydiannau creadigol, gan gynnwys trwy ein gwaith i gyflawni ein themâu strategol a harneisio cyfleoedd o dechnolegau yfory.	Mesur maint a'r math o gyllid a ddyfarnwyd i, a'r allbynnau a'r canlyniadau o brosiectau Y&A sy'n ymwneud â'r saith teulu technoleg blaenoriaeth i fonitro pa mor effeithiol rydym yn cefnogi technolegau yfory.

Uchafbwynt: Creu economi cwantwm-alluog i'r DU

Mae'r gwaith adeiladu wedi dechrau ar y Ganolfan Cyfrifiadura Cwantwm Cenedlaethol (NQCC) gwerth £93 miliwn. Mae EPSRC a STFC yn cefnogi'r ganolfan i arwain datblygiad, cymhwyso a masnacheiddio cyfrifiadura cwantwm, cyflymu twf busnes y DU a'r gadwyn gyflenwi cwantwm, ac ysgogi datblygiad cyfrifiadur cwantwm cyntaf y byd.

Mae'r gwaith hwn yn rhan o'r Rhaglen Technolegau Cwantwm Cenedlaethol sydd wedi ennill canmoliaeth ryngwladol ac sy'n adeiladu mantais strategol gystadleuol ar gyfer y DU mewn technolegau cwantwm. Mae'r rhaglen yn canolbwyntio ar ysgogi twf yn y farchnad a rhyddhau arloesedd, gwella gallu ymchwil a thechnoleg y DU, ac adeiladu asedau wrth raddfa ledled y DU.

Uchafbwynt: Cyflawni'r Strategaeth Ofod Genedlaethol

Gyda'n harbenigedd, cyfleusterau o'r radd flaenaf, a chysylltiadau cryf â busnesau technoleg gofod, byddwn yn parhau â'r ymgyrch i'r DU ddod yn un o brif economïau gofod y byd ac i ysbrydoli'r genhedlaeth nesaf o arweinwyr gwyddoniaeth.

Mae STFC yn gweithio ar draws UKRI, Llywodraeth, Asiantaeth Ofod y DU, ac Asiantaeth Ofod Ewropeaidd i gyflawni'r Strategaeth Ofod Genedlaethol. Bydd y Cyfleuster Prawf Lloeren Cenedlaethol, set gynhwysfawr gyntaf y DU o gyfleusterau prawf gofod ar raddfa fawr mewn un lleoliad, sydd i fod i gael ei gwblhau'r flwyddyn ariannol hon, ar gael ar sail fasnachol i bob sefydliad gofod sy'n seiliedig yn y DU ac yn rhyngwladol.



Amcan 6: Sefydliad o'r radd flaenaf

Gwneud UKRI y sefydliad mwyaf effeithlon, effeithiol ac ystwyth y gall fod.

Gan adeiladu ar ein sylfeini cryf, rydym yn trawsnewid UKRI i fod yn sefydliad mwy ystwyth ac ymatebol, gan uchafu'n cefnogaeth i ymchwil ac arloesi. Byddwn yn integreiddio ein gallu ymhellach i uchafu'r effaith rydym yn ei ddarparu ar y cyd. Byddwn yn parhau i greu amgylchedd grymusol gan optimeiddio penderfynu a chyfrifoldeb effeithiol, cefnogi talent, cynyddu cydweithio a dileu rhwystrau i gyflawni gwaith. Rydym yn benderfynol o wneud ein sefydliad a'i weithgareddau mor effeithlon ac effeithiol â phosib, gan yrru biwrocratiaeth a chost i lawr. Rydym yn hyderus y gallwn gyflawni ein hamcanion strategol a'r gweithgareddau a ddisgrifir yn ein cynlluniau cyflawni o fewn y targedau gwariant gweithredol rydym wedi eu gosod.

Dros y tair blynedd nesaf, byddwn yn manteisio ar ffyrdd newydd o weithio ac ar drawsnewid ein systemau data i leihau ein gwariant gweithredol busnes-fel-arfer o £291 miliwn yn 2022-23 i £220 miliwn erbyn 2024-25, i fod mor effeithiol ac effeithlon â phosib tra'n cyflawni ymrwymadau yn y Cynllun hwn a Chynlluniau Cyflawni Strategol ein cynghorau. Byddwn yn gweithredu model gweithredu symlach, llai biwrocratig, ystwyth ac ymatebol a chanolbwyntio ar fwy o gydweithio ar draws UKRI. Byddwn yn parhau i symleiddio ac integreiddio ein prosesau, ein systemau a'n data, a chael gwared ar fiwrocratiaeth yn ein prosesau cyllido er mwyn sicrhau'r

effaith fwyaf posibl i'n cymunedau a'r cyhoedd. Byddwn yn sicrhau bod y gwelliannau hyn yn cyfleu manteision llawn yr argymhellion o Adolygiad Grant ac Adolygiad Tickell.

Bydd ein gwaith i gynyddu effeithlonrwydd, effeithiolrwydd ac ystwythder yn hwyluso cysylltedd cynyddol a mynediad data a rennir ar draws UKRI, gan hwyluso cydweithio ar draws y sefydliad a gyda'n partneriaid i sicrhau'r effaith uchaf o'n buddsoddiadau. Byddwn yn gwneud defnydd o'n harbenigedd cyfunol i ddal cyfleoedd newydd a mynd i'r afael â heriau, gan ymgysylltu'n eang â'n rhanddeiliaid a'n partneriaid. Bydd y camau hyn yn cryfhau ein system o'r radd flaenaf er mwyn sicrhau effaith ehangach i'n cymdeithas, ein heconomi, a'n hamgylchedd.

Mae gweithio effeithlon ac effeithiol ar draws UKRI yn ddibynnol ar gyfathrebu ac ymgysylltu o ansawdd uchel yn UKRI a rhwng UKRI a'r nifer o randdeiliaid yr ydym yn eu gwasanaethu. Byddwn yn cyflwyno strategaeth Gyfathrebu ac Ymgysylltu newydd i gefnogi strategaeth newydd UKRI, gan sicrhau ein bod yn hyrwyddo system ymchwil ac arloesi creadigol a deinamig ac yn helpu i wreiddio ymchwil ac arloesi yn ein cymdeithas a'n heconomi. Byddwn yn cryfhau ein pwyslais ar adrodd straeon cymhellol am y bobl sy'n gwneud i ymchwil ac arloesi ddigwydd ac ar wneud effeithiau eu gwaith yn weladwy.

Byddwn yn:	Yn 2022-23 byddwn yn:	Er mwyn goruchwyllo maint ein cyrhaeddiad tuag at ein nodau cyffredinol, byddwn yn:
Grymuso pobl dalentog i gydweithio a ffynnu.	Gweithio ar y cyd ac yn strategol ar draws y sefydliad i ddarparu cynllun pobl gynhwysfawr i ddiwallu anghenion ein model gweithredu newydd. Bydd hyn yn cefnogi newid sefydliadol, yn galluogi pawb i ddatblygu eu talent i'r eithaf ac yn adeiladu ein gweithlu dyfodol. Bydd yn cynnwys: ■ cefnogi UKRI i gyflawni'r newid sefydliadol a nodir yn y cynllun hwn. Mewn partneriaeth â UKSBS, byddwn yn gwella systemau a phrosesau Adnoddau Dynol ac yn paratoi ar gyfer gweithredu'r ateb Cynllunio Adnoddau Menter newydd. Byddwn yn cryfhau ein model adnoddau a recriwtio ymhellach ac yn mireinio ein gallu adleoli i gefnogi ymrwymadau effeithlonrwydd. ■ gwreiddio fframwaith cynllunio gweithlu strategol sy'n darparu anghenion talent newidiol UKRI, gan adeiladu piblinell o sgiliau a thalent i sicrhau y gallwn gyflawni ein blaenoriaethau a gwreiddio cyfle ar draws y sefydliad. Byddwn yn nodi ymyriadau olyniaeth/talent ar gyfer pob rôl hanfodol, yn adolygu rheoli perfformiad er mwyn sicrhau ei fod wedi'i gysylltu â gwobr, dysgu a datblygu, a fframweithiau talent, ac yn mapio llwybrau gyrfa ar gyfer rolau allweddol yn y dyfodol. ■ creu cynnig gweithiwr sy'n gymhellol i sicrhau bod UKRI yn y sefyllfa orau i ddenu, datblygu, a chadw staff o'r ansawdd orau. Byddwn yn sicrhau bod ein system gyflog a gwobrwyd yn gyson a thryloyw, yn gwella ein cynnig dysgu a datblygu yn sylweddol ac yn gosod safonau clir i'n harweinwyr, yn cefnogi lles meddyliol a chorfforol ein staff, ac yn cyflwyno rhaglen barhaus o ymgysylltu â gweithwyr ar draws UKRI er mwyn sicrhau bod safbwyntiau staff yn cael eu clywed a'u cymryd i ystyriaeth ac yn helpu i symleiddio ein systemau a'n prosesau. ■ sicrhau bod UKRI yn weithle mwy teg, amrywiol, a chynhwysol, gan adeiladu creadigrwydd, arloesedd, ac effeithiolrwydd. Byddwn yn cyhoeddi ein cynllun Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant gweithlu sy'n nodi sut y byddwn yn dilyn dull sail-tystiolaeth i amrywio ein gweithlu, cataleiddio cynhwysiant ar draws UKRI ac adeiladu gallu a hyder Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant yn ein gweithlu. Adnewyddu ein strategaeth gyfathrebu ac ymgysylltu i gyd-fynd yn llawn â'n strategaeth pum mlynedd, gan gynnwys: ■ datblygu ein rhaglen o ymgysylltu â rhanddeiliaid er mwyn meithrin trafodaeth ddwyffordd rhwng UKRI a'n cymunedau. Cryfhau'r gwaith o ymuno a chydlyn ymgysylltu ar draws y sefydliad, gan rannu mewnwelediad a deallusrwydd er mwyn i ni allu gwasanaethu ein cymunedau yn well. ■ cyflenwi cyfathrebu wedi'i dargedu'n fanwl i gefnogi gweithrediadau UKRI, gan gynnwys galwadau grant a chefnogi ein cymunedau i ddeall sut mae UKRI yn gweithio a sut y gallant gyfrannu. ■ adeiladu ar lwyddiant ein sianeli cyfathrebu mewnol presennol i ddyfnhau ymgysylltiad staff â'n sefydliad, ei bwrpas, a'i effeithiau, gan ddod â'n pobl i flaen y negeseuon yr ydym yn eu tynnu sylw atynt. ■ gweithio'n fwyfwy gyda dadansoddwr a thimau data i gyfathrebu effeithiau ein buddsoddiadau, a cryfhau ein gwaith cyfathrebu rhagweithiol.	Mesur ein gostyngiad mewn Gwariant Gweithredol (OpEx) a Gwariant Gweithredol Gweithwyr Llawn Amser Cyfartal (FTE) i gyrraedd ein targedau a sicrhau effeithlonrwydd uwch. Mesur amser cyfartalog i gwblhau adolygiad cymheiriaid grant a boddhad ymgeiswyr i sicrhau effeithiolrwydd ac effeithlonrwydd ein prosesau. Mesur ymgysylltiad staff drwy arolygon pwls rheolaidd i fonitro sut rydym yn datblygu, grymuso, a chefnogi ein staff. Mesur sefyllfaoedd ariannol chwarterol a blyneddol i sicrhau ein bod o fewn 1% o'n rhagolwg cyfalaf craidd P6 a'r terfynau gwariant BEIS. Mesur ehangder ac amrywiaeth y bobl sy'n ymgysylltu â'n gwefan, cystadlaethau ariannu a gweithgareddau cyfathrebu ac allgymorth i fonitro sut rydym yn gwella hygyrchedd a chynhwysiant drwy ein cyfleoedd cyllido, cyfathrebu, ymgysylltu, a phartneriaethau. parhau...

Byddwn yn:	Yn 2022-23 byddwn yn:	Er mwyn goruchwyllo maint ein cyrhaeddiad tuag at ein nodau cyffredinol, byddwn yn:
Gwneud UKRI yn sefydliad effeithlon, effeithiol, ac ystwyth.	Parhau i wella sut rydym yn gweithio i yrru mwy o effeithlonrwydd, cydweithio, ac ystwythder ar draws UKRI, harneisio ac optimeiddio ein galluoedd mewnol fel y gallwn ddarparu mwy gyda'n gilydd, gan gynnwys: ■ dechrau ar raglen waith uchelgeisiol i lunio a chyflwyno ein model gweithredu newydd, sy'n ein galluogi i leihau dyblygu ac ailddychmygu sut rydym yn gweithredu, gan gynnwys gweithredu argymhellion yn Adolygiad Grant. ■ integreiddio ein portffolio Diwygio ein Busnes presennol i'r gwaith hwn, gan leihau'r portffolio i gyflawni'r effeithlonrwydd mwyaf ar gyfer UKRI. Byddwn yn alinio ac yn optimeiddio ein prosesau a'n systemau gan gynnwys seilweithiau TG, yn gyrru effeithlonrwydd drwy fodelu costau, a lleihau biwrocratiaeth gan ei gwneud hi'n haws i ymchwilwyr ac arloeswyr wneud cais am gyfleoedd ariannu. ■ Fel rhan o'n rhaglen Ariannu Symlach, Gwell, fydd yn darparu un gwasanaeth ariannu, byddwn yn gweithio ar draws cynghorau i barhau i ddatblygu a threialu'r system. Ein nod yw darparu gallu gweithredu cychwynnol erbyn Rhagfyr 2023, gyda gweithrediad llawn erbyn mis Mawrth 2025. ■ parhau i weithredu fel sefydliad cyfrifol, gan sicrhau bod ein systemau llywodraethu a rheoli yn gadarn a gwydn ac yn bodloni llywodraethu da ac arfer moesegol gorau. Byddwn yn cryfhau llywodraethu, rheoli gwybodaeth a'r ffordd mae UKRI yn cael ei gyfarwyddo a'i arwain, gan alluogi gwneud-penderfyniadau effeithiol ac adeiladu busnes cynaliadwy. Byddwn yn gwella cydymffurfiaeth ac adrodd drwy weithredu ein system Llywodraethu Corfforaethol a Rheoli Risg newydd. ■ gwella ein gallu adrodd, dadansoddi, a gwneud-penderfyniadau ar sail data drwy greu un storfa ddata UKRI-gyfan yn cynnwys Grantiau, AD, a Chyllid, a gwella ansawdd ein data. Byddwn yn galluogi mwy o gydweithio drwy gyflwyno mecanwaith i alluogi data i lifo rhwng systemau yn fwy effeithlon a chyflwyno system Rheoli Adnoddau Menter newydd trwy'r rhaglen SHARP. ■ gwella ein gwytnwch a'n gallu i wynebu heriau tirwedd bygythiad sy'n newid drwy drawsnewid ein dull o ymdrin ag offer a galluoedd diogelwch gwybodaeth a gweithio i sicrhau bod UKRI yn cydymffurfio o ran personél, seiber, data corfforol, a diogelwch gwybodaeth. Byddwn yn parhau i ddod â'r gwasanaethau seilwaith TG a chymorth cyngor o'r gorffennol ynghyd i sicrhau bod UKRI yn sefydliad unigol, effeithiol, ac integredig. ■ cefnogi cyflawni ein blaenoriaethau drwy ein portffolio, ein rhaglen, a'n gallu i gyflawni prosiectau, gan gynnwys darparu cefnogaeth ar gyfer rheoli newid, gwella'n barhaus, a datblygu buddsoddiadau mawr drwy'r Hwb Achos Busnes.	Mesur cyflwyno a pherfformiad ein rhaglen waith i lunio a chyflwyno ein model gweithredu newydd, a diwygio ein busnes, er mwyn sicrhau ein bod yn symud yn effeithiol tuag at UKRI sy'n fwy effeithlon, cydweithredol ac ystwyth. Mesur cyflawniad ac effeithiau'r argymhellion o adolygiadau allanol o UKRI a'r dirwedd ehangach i sicrhau ein bod yn gwella ein heffeithlonrwydd ac yn galluogi effeithiolrwydd y System Y&A.


Byddwn yn:	Yn 2022-23 byddwn yn:	Er mwyn goruchwyllo maint ein cyrhaeddiad tuag at ein nodau cyffredinol, byddwn yn:
Sbarduno newid ac effaith drwy bartneriaeth ac arweinyddiaeth.	Ymgorffori cynaliadwyedd amgylcheddol ar draws ein gwaith a'n stadau, gan gyflawni ein Strategaeth Gynaliadwyedd Amgylcheddol a'n cynlluniau gweithredu. Mae hyn yn cynnwys: ■ nodi llwybrau posibl i gyrraedd Sero Net erbyn 2040. Byddwn yn arloesi yn ein hystâd a'n seilwaith i ostwng ein hallyriadau carbon ac i nodi cyfleoedd i wella, gan gynnwys: – archwilio opsiynau ar gyfer cynyddu ein defnydd o ynni adnewyddadwy, lleihau'r galw am ynni, lleihau ein defnydd o adnoddau a'n gwastraff, a diogelu a gwella bioamrywiaeth ar ein stad. Byddwn hefyd yn archwilio cyfleoedd i leihau yn y tymor hwy'r allyriadau o longau ac awyrennau ymchwil gwyddoniaeth forol a phegynol. – lansio cronfa draws-UKRI newydd i gefnogi datgarboneiddio ystâd wyddoniaeth a swyddfa a seilwaith UKRI dros y tair blynedd nesaf. Wrth gyflawni'r Strategaeth Sero Net, bydd y Gronfa Sero Carbon yn cefnogi prosiectau i ddatblygu atebion i leihau'r galw am ynni a chynhyrchu pŵer adnewyddadwy a charbon isel ar gyfer darparu gwyddoniaeth a gweithrediadau UKRI. ■ cydweithio â Sefydliadau Addysg Uwch i gyd-ddatblygu set o egwyddorion i gymell arferion mwy amgylcheddol gynaliadwy yn y gymuned ymchwil ac arloesi. Pencampwr 'caffael cyfrifol'. Yn ogystal ag ymgorffori, gwella, a gwireddu'r manteision o'n model gweithredu caffael, symleiddio gweithrediadau cyfredol, darparu adrodd cadarn, a gwella'r gwasanaeth yn barhaus trwy awtomeiddio, byddwn yn ymgorffori set o egwyddorion i gefnogi cadwyni cyflenwi amgylcheddol gynaliadwy, diogel, a moesegol, gan ddarparu siarter a phhecyn cymorth i arwain ein staff a'n cyflenwyr.	Mesur cyflawni ein strategaeth gynaliadwyedd amgylchedd ac effaith amgylcheddol ein hystâd i nodi'r gwelliant o ran ein nodau cynaliadwyedd amgylcheddol.

Ein cyllideb

Buddsoddiadau UKRI yw'r gwariant cyhoeddus mwyaf ar ymchwil ac arloesi yn y DU. Cyfanswm ein buddsoddiad ar gyfer 2022-23 yw £7,904m. Sylwer nad yw'r ffigur hwn yn cynnwys Cymorth Datblygu Swydddogol (CDS), Trafodion Ariannol, Grant Blaenoriaethau Strategol a Rhaglenni Rheoledig yr Adran Addysg lle caiff cyllid ei ddarparu gan UKRI ar ran adrannau'r llywodraeth, ac eithrio Rhaglen Allyriadau Sero'r Adran Drafnidiaeth a gyflenwir gan Innovate UK.

Yn unol â'n huchelgais i fod yn sefydliad effeithlon, yn 2022-23 byddwn yn gwario dim mwy na £368 miliwn ar ein costau gweithredu, £291 miliwn yn ymwneud â chostau busnes-fel arfer cyflawni ein portffolio, a £77m ar ein rhaglenni 'diwygio ein busnes', gan gynnwys buddsoddi mewn trawsnewid ein seilwaith TG cyngor o'r gorffennol.

Mae manylion ychwanegol i'w gweld yn [2022-23 – 2024-25 Esboniwr dyraniadau cyllideb UKRI](#) ac yng nghynlluniau cyflenwi Strategol y Cyngor sydd ar ddod.



Cyllidebau UKRI¹

	2022/23 (£m)	2023/24 (£m)	2024/25 (£m)
Cyllidebau Ymchwil ac Arloesi craidd², ac o'r rhain:	4,881	5,553	5,999
AHRC	71	65	70
BBSRC	300	318	326
EPSRC	621	647	661
ESRC	121	119	122
MRC	548	587	615
NERC ³	288	311	325
STFC ⁴	531	544	575
Research England ⁵	1,730	2,163	2,333
Innovate UK ⁶	669	799	970
Cyllidebau Y&A – ymrwymïadau amser cyfyngedig presennol⁷	140	135	151
Cyllid Talent Cyfunol⁸	599	670	726
Seilwaith	868	1,000	1184
Cronfa Sero Carbon	8	16	24
Seilweithiau Ymchwil Digidol	17	42	70
Cronfa Seilwaith	59	142	281
Buddsoddiadau seilwaith presennol	174	134	62
Cronfa Fuddsoddi Partneriaeth Ymchwil y DU (UKRPIF)	29	25	75
Labordai o'r Radd Flaenaf, ac o'r rhain:	316	368	386
AHRC	0	5	10
BBSRC	56	70	74

	2022/23 (£m)	2023/24 (£m)	2024/25 (£m)
EPSRC	67	66	69
ESRC	36	41	41
MRC	31	37	39
NERC ⁹	30	35	37
STFC	96	113	117
Cyfalaf ar gyfer tanysgrifiadau rhyngwladol	49	48	48
Cronfa Buddsoddi Cyfalaf Ymchwil (RCIF): Higher Education Research Capital (HERC) England a HEI Research Capital England ¹⁰	216	225	238
Rhaglenni Strategol traws-UKRI newydd	100	247	464
Cyflymyddion Arloesi	3	31	66
Rhaglenni Strategol traws-UKRI newydd eraill	97	216	398
Rhaglenni Strategol traws-UKRI presennol	1,222	795	476
Cronfa ar gyfer Cydweithio Rhyngwladol	40	15	5
Cronfa Her Strategaeth Ddiwydiannol	457	252	96
Cronfa Blaenoriaethau Strategol	190	155	85
Cronfa Cryfder mewn Lleoedd	71	76	62
Rhaglenni Strategol eraill traws-UKRI	50	69	78
Cefnogaeth ddeuol ar gyfer Rhaglenni Strategol presennol (yn flaenorol nplF) ¹¹	414	228	150
Cyllid Dan Reolaeth Ganolog	330	231	195
Dyranïad UKRI^{12 13}	7,904	8,373	8,874

Gweler tudalen 31 am droednodiadau i dabl cyllidebau UKRI

Troednodiadau ar gyfer tabl cyllidebau UKRI:

- 1 Mae'r ffigurau a ddarperir yn y ddogfen hon yn cyd-fynd â dyraniadau cyllideb 2022-23 – 2024-25 ar gyfer [UK Research and Innovation](#) ac maent wedi'u dadansoddi yn ôl ein categorïau cyllidebu ac adrodd. Mae'r ffigurau'n ddynodol a gallant amrywio yn ystod y cyfnod o dair blynedd oherwydd addasiadau i'r gyllideb a wnaed fel rhan o brosesau rheoli ariannol a chynllunio parhaus er mwyn cynyddu'r defnydd o'n cyfanswm cyllid.
- 2 Nid yw cyllidebau Y&A craidd y Cyngor fel y dangosir nhw yn cynnwys cyllid ar gyfer ymrwymïadau cyfyngedig amser presennol, seilwaith, rhaglenni strategol a thalent ar y cyd. Bydd yr arian ar gyfer y cyllidebau hyn yn cael ei ddarparu gan gynghorau, ond nid yw wedi ei gynnwys yn ffigurau craidd Cyngor Y&A yn y cyhoeddiad hwn.
- 3 Mae'r ffigwr Cyllidebau Y&A Craidd Cyngor Ymchwil yr Amgylchedd Naturiol (NERC) yn cynnwys cyllid adnoddau ar gyfer rhaniad Logisteg a Seilwaith yr Antarctig, i gefnogi gweithrediadau gwyddonol y DU yn yr Antarctig, gan gynyddu o £44.6m yn 22/23 i £52.3m yn 24/25.
- 4 Mae cyllideb y Cyngor Cyfleusterau Gwyddoniaeth a Thechnoleg (STFC) yn adlewyrchu'r cynnydd mewn tanysgrifiadau rhyngwladol, gan gynnwys trosglwyddo'r cyfrifoldeb am ariannu'r Labordy Bioleg Foleciwlaidd Ewropeaidd (EMBL) o'r MRC, a darpariaeth ar gyfer effaith costau ynni cynyddol ar weithredu cyfleusterau domestig.
- 5 Mae ffigurau Research England ar gyfer y blynyddoedd ariannol 2022-23 – 2024-25. Bydd cyllidebau a ddyrannwyd ar gyfer y blynyddoedd academiaidd 2022-23 – 2024-25 yn amrywio ac yn cael eu cyhoeddi ar wahân. Bydd y dyraniad hwn yn cadw cydbwysedd cefnogaeth ddeuol yn 64c (nid yw hyn ar hyn o bryd yn cynnwys cyllid ODA sydd i'w gadarnhau, ynghyd â chefnogaeth ddeuol ar gyfer rhaglenni strategol newydd).
- 6 Dyrannwyd £2.6 biliwn i Innovate UK ar draws 2022-23 – 2024-25 yn Adolygiad Gwariant 2021. Mae hyn yn cynnwys cyllid ar gyfer gweithgareddau y rhoddir cyfrif amdanynt mewn 'ymrwymïadau amser-cyfyngedig presennol', gan gynnwys rhaglen Cerbydau Cludo Nwyddau Allyriadau Sero gwerth £118m, y bydd £80 miliwn ohono yn cael ei gyflenwi yn 2024-25 ac y bydd Innovate UK yn ei gyflenwi ar ran yr Adran Drafnidiaeth.
- 7 Mae'r ymrwymïadau amser-cyfyngedig presennol yn cynnwys cyllid ar gyfer ymyriadau COVID a gwariant prosiect ymroddedig un-tro.
- 8 Mae cyllid talent cyfunol yn cynnwys £8.6 miliwn ychwanegol yn 2024-25 fel rhan o fuddsoddiad o £117 miliwn gan y llywodraeth i greu 1,000 o ddoethuriaethau gradd DA newydd drwy Ganolfannau Hyfforddiant Doethurol, fel y cyhoeddwyd yn Natganiad y Gwanwyn 2022.
- 9 Mae ffigwr Labordai O'r Radd Flaenaf Cyngor Ymchwil yr Amgylchedd Naturiol (NERC) yn cynnwys cyllid cyfalaf ar gyfer rhaniad Logisteg a Seilwaith yr Antarctig, i gefnogi gweithrediadau gwyddonol y DU yn yr Antarctig, gan gynyddu o £7.3m yn 22/23 i £7.6m yn 24/25.
- 10 Mae arian cyfatebol ar gyfer y gweinyddiaethau datganoledig yn cael ei ddyrannu'n uniongyrchol gan BEIS.
- 11 Cafodd cefnogaeth ddeuol ar gyfer rhaglenni strategol presennol ei ariannu'n flaenorol drwy'r Gronfa Buddsoddi Cynhyrchiant Cenedlaethol (NPIF).
- 12 Mae cyfanswm llinellau cyllideb unigol UKRI yn cyfateb i fwy na chyfanswm cyllid UKRI i liniaru'r risg o danwariant a sicrhau'r defnydd gorau o'r cyllid sydd ar gael.
- 13 Mae pob ffigwr yn eithrio'r cyllid ar gyfer ODA, Trafodion Ariannol, Rhaglenni a Reolir gan BEIS (ac eithrio'r Rhaglen Allyriadau Sero Trafnidiaeth a fydd yn cael ei darparu gan Innovate UK) a Grant Blaenoriaethau Strategol yr Adran Addysg.



UK Research
and Innovation

UK Research and Innovation (UKRI)
Polaris House
North Star Avenue
Swindon SN2 1ET

T: 01793 444000
E: communications@ukri.org

www.ukri.org